national museum wales
amgueddfa cymru

Adroddiad Ariannol 2007/08

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Cyhoeddwyd yn 2008 gan
Amgueddfa Cymru,
Parc Cathays, Caerdydd
CF10 3NP
© Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Cynhyrchu: Mari Gordon
Cymraeg: Meleri MacDonald/Catherine Jones
Dylunio: Andrew Griffiths Design
Argraffu: Xpedient

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu, storio mewn system adfer na throsglwyddo unrhyw ddarn o'r cyhoeddiad hwn mewn unrhyw ffurf neu trwy unrhyw fodd boed yn drydanol, yn fecanyddol neu fel arall, heb yn gyntaf geisio caniatâd ysgrifenedig Amgueddfa Cymru neu ddeiliad/deiliaid yr hawlfraint, neu fel y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu. Dylid gyrru unrhyw ymholiadau eraill at yr Adran Gyhoeddiadau, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, CAERDYDD CF10 3NP. Mae pob delwedd yn © Amgueddfa Genedlaethol Cymru os na nodwyd fel arall.

Mae Adroddiad yma a'r Adroddiad Blynyddol ar gael ar ein gwefan:
www.amgueddfacymru.ac.uk.

Argraffwyd yr Adroddiad yma ar bapur â Thystysgrif Amgylchedd ISO 14001. Fe'i gwnaed o ffibr pren o goedwigoedd cynaliadwy, yn bydradwy a gellir ei ailgylchu.

national museum wales
amgueddfa cymru

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru

ADRODDIAD ARIANNOL BWRDD YMDDIRIEDOLWYR AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU

Cefndir statudol

Sefydlwyd 'Amgueddfa Genedlaethol Cymru' (yr Amgueddfa) drwy Siarter Frenhinol ym 1907, ac mae'n parhau i fod wedi'i chofrestru fel corff cyfreithiol ac elusen o dan yr enw hwn (Rhif Elusen 525774, Rhif TAW GB 783 4541 10). Enw cyhoeddus y sefydliad yw 'Amgueddfa Cymru'.

Mae'n elusen gofrestredig annibynnol, ac yn cael ei hariannu'n bennaf drwy gymhorthdal grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel Corff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad (CNLC).

Ei hamcan craidd yw *'hyrwyddo addysg y cyhoedd'*. Mae hyn yn golygu datblygu casgliadau cenedlaethol Cymru, gofalu amdanynt, eu hastudio a'i gwneud yn hawdd i bobl eu mwynhau er budd y gymdeithas, a hynny am byth. Mae'r Siarter (a ddiwygiwyd ym 1991 ac yn 2006) yn nodi y dylid cyflawni hyn:

(i) yn bennaf, drwy ddarlunio'n llwyr wyddoniaeth, celfyddydau, diwydiannau, hanes a diwylliant Cymru neu sy'n berthnasol i Gymru, ac

(ii) yn gyffredinol, drwy gasglu, cofnodi, diogelu, egluro a chyflwyno gwrthrychau a phethau a gwybodaeth gysylltiedig, boed yn gysylltiedig â Chymru ai peidio, y bwriedir iddynt hyrwyddo gwell dealltwriaeth a hybu ymchwil.

Ar 19 Medi 2006 cafodd yr Amgueddfa Siarter Frenhinol a Statudau Atodol. Newidiodd y Siarter hon drefniadau llywodraethu'r Amgueddfa drwy ddiddymu Llys y Llywodraethwyr. Serch hynny, cyfraniad budd-ddeiliaid yw conglfaen gweledigaeth Amgueddfa Cymru o hyd.

I'r perwyl hwn, pennodd Cynllun Gweithredol 2007-08 amcan i lunio a gweithredu cynllun ymgynghori cost-effeithiol er mwyn adlewyrchu'r ffaith fod y casgliadau'n cael eu cadw mewn ymddiriedolaeth ar ran y cyhoedd, ac annog budd-ddeiliaid i gymryd rhan mewn amrywiaeth o fathau o ymgynghoriadau, sy'n addas at amrywiol anghenion defnyddwyr a phobl nad ydynt yn ddefnyddwyr, drwy alluogi iddynt chwarae rhan ystyrlon ym mhrosesau cynllunio'r amgueddfa ar bob lefel.

Roedd y Cynllun Ymgynghori a'r Cynllun Gweithredu dros Berchnogaeth ar gyfer 2007-08 a gododd o hyn yn pennu'r gwerthoedd, yr egwyddorion a'r technegau cyfranogi allweddol a gyfeiriodd prif weithgareddau ymgynghori Amgueddfa Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf.

Nodau ac Amcanion

Dyma nodau ac amcanion cyfredol Amgueddfa Cymru:

- creu amgueddfeydd byw lle mae'r casgliadau'n adrodd eu straeon mewn ffordd gliriach, â'r ymwelwyr yn profi bywyd ddoe a heddiw ac yn archwilio gwahanol bosibiliadau ar gyfer y dyfodol
- datblygu casgliadau llewyrchus sy'n cael eu defnyddio'n dda, sy'n gynaliadwy ac sy'n tyfu
- canfod llwybrau i wneud synnwyr o'r byd gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau sy'n addas ar gyfer gwahanol ddulliau dysgu, er mwyn creu mynediad cyfartal i'r casgliadau
- datblygu fel sefydliad dysgu drwy rannu ein cynlluniau gyda'n hymwelwyr, a chyd-ddatblygu'r ffyrdd yr ydym yn gweithio, er mwyn creu mynediad ystyrlon i'r amrywiaeth o bobloedd sydd wedi ymgartrefu yng Nghymru i ddefnyddio'r casgliadau
- datblygu fel sefydliad dysgu drwy blannu sgiliau dysgu wrth galon ein holl waith
- cyfathrebu ein neges fel y daw Amgueddfa Cymru'n adnabyddus ledled y byd fel canolfan ddysg o safon ryngwladol a darparu gwell mynediad a chodi proffil y casgliadau cenedlaethol drwy ein gwaith gyda'n sefydliadau partner
- adeiladu ar ein hadnoddau er mwyn creu sail gadarn a chryf i gyflawni ein Gweledigaeth ar gyfer y deng mlynedd nesaf a'r tu hwnt.

Drwy ddefnyddio'r blaenoriaethau strategol hyn gallwn wireddu ein Gweledigaeth i fod yn 'Amgueddfa Ddysg o Safon Ryngwladol', yn ogystal â chefnogi gweledigaeth strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru fel y'i disgrifir yng nghytundeb clymbleidiol 'Cymru'n Un', 2007.

Trefniadau Llywodraethu – Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwyr

Awdurdod gweithredol yr Amgueddfa yw Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, sy'n gyfrifol am reoli a gweinyddu cyllid ac eiddo'r Amgueddfa lle buddsoddir yr holl arian sy'n dod oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru neu o ffynonellau eraill, a'r holl diroedd, adeiladau a rhoddion mewn da a grëir neu a gyflwynir at ddibenion y sefydliad. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cyfarfod yn gyhoeddus yn rheolaidd er mwyn cyflawni ei waith.

Penodir aelodau Bwrdd Ymddiriedolwyr yr Elusen gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a gan yr Amgueddfa, mewn niferoedd a bennir o fewn y Siarter atodol. Gweithredir egwyddorion penodi agored ar gyfer pob penodiad, yn ôl argymhellion Adolygiad Nolan. Sefydlwyd is-bwyllgor Penodiadau i gynorthwyo a chynghori ar y broses. Mae pob person newydd a benodir yn dilyn rhaglen gyflwyno ac yn derbyn llawlyfr cynhwysfawr yn fuan ar ôl eu penodi. Nid yw'r Amgueddfa'n talu unrhyw aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolwr am eu gwasanaeth.

Ceir manylion aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr drwy gydol y flwyddyn hyd at ddyddiad yr adroddiad hwn, gan gynnwys y rhai sydd wedi ymddiswyddo, ymddeol ac wedi ymuno, mewn atodiad i'r adroddiad hwn. Cedwir manylion unrhyw gwmnïau y maent yn gyfarwyddwyr arnynt a buddiannau sylweddol eraill mewn Cofrestr Buddiannau sydd ar gael i'r cyhoedd. Bu farw un o'r Ymddiriedolwyr, sef Jane Peirson Jones, ar 13 Medi 2007 ac mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r staff yn dymuno cofnodi eu gwerthfawrogiad am ei gwasanaeth i'r Amgueddfa.

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr hefyd yn dirprwyo awdurdod i amrywiol is-bwyllgorau, yn bennaf y Pwyllgor Adolygu Perfformiad, sydd â chylch gwaith eang i fonitro materion gweithredol; y Pwyllgor Archwilio, sydd â Chadeirydd annibynnol a thri aelod annibynnol arall, gan gynnwys cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru; a Bwrdd yr is-gwmni sy'n cyfarwyddo gweithgareddau masnachol yr Amgueddfa. Mae'r pwyllgorau hyn yn cwrdd bob chwarter.

Bwrdd y Cyfarwyddwyr sy'n ymdrin â materion gweithredol o ddydd i ddydd, ac mae eu manylion hwythau hefyd mewn atodiad i'r adroddiad hwn. Penodir pob aelod o Fwrdd y Cyfarwyddwyr drwy gystadleuaeth agored ac fe'u cyflogir o dan Amodau a Thelerau Cyflogaeth safonol yr Amgueddfa, sy'n berthnasol i'r holl staff, ac eithrio'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, a benodir dan delerau a gytunwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae trefniadau llywodraethu'r Amgueddfa'n cydymffurfio'n llwyr â'r Cod Llywodraethu ar gyfer y Sector Gwirfoddol a Chymunedol a gyhoeddwyd gan Ganolfan Llywodraethu Genedlaethol Lloegr ac maent wedi'u cymeradwyo'n llwyr gan y Comisiwn Elusennau.

Safleoedd Amgueddfa Cymru

Yn ystod 2007/08, roedd yr Amgueddfa yn gweithredu amgueddfeydd mewn saith lleoliad ledled Cymru:

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd

Mae Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn unigryw ymysg amgueddfeydd cenedlaethol Prydain o ran amrywiaeth ei harddangosfeydd celf a gwyddoniaeth. Yn 2007-08 cychwynnodd gwaith i ddatblygu Amgueddfa Gelf Cymru, ochr yn ochr â'r casgliadau cenedlaethol ym meysydd Archeoleg a Niwmismateg, Daeareg a Bioamrywiaeth a Bioleg Systematig.

Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd

Sain Ffagan yw un o brif amgueddfeydd awyr agored Ewrop, ac mae'n perthyn i grŵp o bedair amgueddfa hanes cymdeithasol a diwydiannol. Gall ymwelwyr archwilio a mwynhau dros 2,000 o flynyddoedd o hanes mewn dros bedwardeg adeilad a gasglwyd o bob cwr o Gymru a'u hailgodi ar y safle.

Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru, Blaenafon, Torfaen

Wrth galon Safle Treftadaeth y Byd ym Mlaenafon, hen bwll glo go iawn yw Big Pit. Mae'n cynnig profiad Cymreig unigryw sydd heb ei ail ym Mhrydain. Dan arweiniad cyn-lowyr, caiff ymwelwyr ddisgyn dros 90 metr i grombil y pwll, a phrofi tywyllwch llethol lle gwaith pob dydd y glowyr.

Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, Caerllion, Casnewydd

Sefydlwyd Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru gan Gymdeithas Hynafiaethwyr Caerllion ym 1850, ac fe'i trosglwyddwyd ym 1930. Mae'r amgueddfa wedi bod yn arddangos casgliad cyfoethog o ddarganfyddiadau Rhufeinig ers dros 150 mlynedd. Maent yn cynnwys cerfluniau, ysgrifau, cerrig beddi, deunyddiau adeiladu, mosaig labrinth, offer milwrol, crochenwaith, gwydr a gemwaith. Saif tref Caerllion ar safle un o dri gwersyll parhaol y llengoedd Rhufeinig ym Mhrydain.

Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, Gwynedd
Dyma lle daw hanes y diwydiant llechi'n fyw yn hen weithdai'r chwarel. Yn ogystal â'r ffowndri, yr efail, y siediau a'r olwyn ddŵr weithredol fwyaf ar dir mawr Prydain, mae crefftwyr yn arddangos eu sgiliau wrth hollti a naddu llechi â llaw.

Amgueddfa Wlân Cymru, Dre-fach Felindre, Sir Gaerfyrddin
Mae'r amgueddfa hon wrth galon cefn gwlad y gorllewin yn adrodd hanes y deugain melin oedd yn glwstwr o amgylch Dre-fach Felindre ar un adeg. Mae Ffatri'r Cambrian – yr unig felin sydd wedi bod yn gweithredu'n barhaus ers ei hadeiladu – bellach yn gartref i'r Amgueddfa.

Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe
Wrth galon yr adfywiad yn Ardal Forwrol Abertawe mae Amgueddfa Genedlaethol y Glannau. Hen stordy cofrestredig ar lan y doc yw cartref yr amgueddfa ac fe'i cysylltwyd ag adeilad newydd a modern o lechi a gwydr. Agor yr Amgueddfa yn Hydref 2005 oedd penllanw strategaeth ddeng mlynedd a welodd fuddsoddiad gwerth £40m yn ein pedair amgueddfa ddiwydiannol ledled Cymru. Mae'r Amgueddfa'n bwrw goleuni unigryw ar effeithiau diwydiannu a masnachu morwrol ar fywyd yng Nghymru.

Hefyd, mae Canolfan Gasgliadau Cymru yn Nantgarw, Rhondda Cynon Taf, sy'n agored i'r cyhoedd os gwneir apwyntiad. Yn ogystal, ar hyn o bryd mae gennym drefniadau partneriaeth gyda sefydliadau lleol i reoli Amgueddfa Rufeinig Segontium, Caernarfon, Gwynedd, Oriel Tŷ Turner, Penarth, Bro Morgannwg, a gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro ar gyfleuster newydd sy'n cael ei adeiladu yn Nhyddewi, Sir Benfro, ar hyn o bryd.

Llwyddiannau

Yn ystod 2007-08, dathlodd yr Amgueddfa nifer o lwyddiannau ar draws ei safleoedd gan gynnwys:

Daeth bron i 1.7 miliwn o ymwelwyr trwy ddrysau amgueddfeydd cenedlaethol Cymru yn 2007-08 – y nifer fwyaf erioed a 124% yn uwch na'r nifer o ymweliadau a wnaed yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf cyn cyflwyno mynediad am ddim yn Ebrill 2001.

Roedd yr 1,672,677 o ymweliadau a gafwyd 9% yn uwch nac yn 2006-07 ac yn cynnwys record o 674,678 i Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru, 353,509 i Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ym Mharc Cathays a 264,195 i amgueddfa ddiweddaraf Cymru, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe. Mae'r amgueddfa'n priodoli'r llwyddiant hwn i dair prif ffactor:

- poblogrwydd parhaus y polisi mynediad am ddim a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
- agoriad Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe yn 2005
- rhaglen gyhoeddus gref o arddangosfeydd a digwyddiadau i ddathlu'r Canmlwyddiant yn 2007.

Lansiwyd dathliadau'r Canmlwyddiant yn Ionawr 2007 gydag arddangosfa *Art Treasures of Wales*. Cafodd dros 30 o luniau, cerfluniau a darnau celf eu harddangos mewn lleoliad yng nghanol Llundain i nodi lansiad project codi arian y canmlwyddiant er mwyn creu cartref newydd ar gyfer y casgliadau celf cenedlaethol ym Mharc Cathays.

Roedd hi hefyd yn adeg gyffrous i Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru wrth wireddu un o brif brojectau canmlwyddiant Amgueddfa Cymru yn Ebrill 2007. Mae'r oriel dan do newydd, Oriel 1, yn defnyddio gwrthrychau, ffotograffau, ffilm, celf a straeon personol i ddangos yr amrywiaeth o brofiadau sydd wedi creu'r Gymru sydd ohoni.

Llifodd ymwelwyr o Gymru a'r tu hwnt i Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd i weld gwaith artistiaid fel Monet, Cézanne a Van Gogh wrth i ni edrych yn fanwl ar stori anhygoel Gwendoline a Margaret Davies ym mhrif arddangosfa'r canmlwyddiant, *Diwydiant, Diwylliant*.

Diolch i lansiad gwefan Rhagor ar ddiwedd yr haf, gellir mwynhau'r gweithiau hyn a llawer iawn mwy ar-lein. Mae'r amgueddfa 'rithwir' newydd sbon hon yn datgelu nifer o drysorau o gasgliadau saith amgueddfa genedlaethol Cymru am y tro cyntaf erioed.

Mae gwefan Rhagor yn cynnwys cyfoeth o erthyglau awdurdodol gyda sylwadau rhyngweithiol a chyfleusterau graddio, orielau syfrdanol o ddelweddau, cwisiau, mapiau deinamig a 'llyw' o gwmpas y delweddau rhyngweithiol. Gall defnyddwyr gyflwyno eu delweddau a'u hatgofion eu hunain i'r safle. Caiff y safle ei ddiweddaru'n rheolaidd, a'i gynllunio i ehangu at y dyfodol. Y nod yn y pendraw yw cyflwyno agwedd holistig at ddata am gasgliadau, gweithgareddau ymchwil a gwybodaeth academaidd.

Gwelir casgliadau'r genedl hefyd yn *Amgueddfa Cymru: dathlu'r ganrif gyntaf* a gyhoeddwyd gan Lyfrau Amgueddfa Cymru. Mae'r llyfr yn cynnwys lluniau hanesyddol o archifau'r Amgueddfa yn

ogystal â delweddau modern trawiadol, sy'n adrodd hanes rhai o'r bobl fu'n allweddol wrth greu'r amgueddfa dros y ganrif ddiwethaf.

Yn sgil agoriad eglwys ganoloesol Sant Teilo yn Hydref 2007, gwelwyd miloedd yn fwy o bobl yn dod i weld adeilad hanesyddol 'newydd' wedi'i ail-godi yn atyniad ymwelwyr mwyaf poblogaidd y genedl.

Daeth y canmlwyddiant i ben yn Rhagfyr 2007 gyda chynhadledd ryngwladol bwysig, *Amgueddfeydd Cenedlaethol a Chenhedloedd Bychain*, ac agoriad yr arddangosfa *Gwreiddiau* yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Mae'r arddangosfa archeoleg ddyfeisgar hon yn peri i ymwelwyr edrych ar wrthrychau o'r gorffennol mewn ffordd sy'n ein helpu ni i ddeall pwy ydyn ni heddiw.

Gweithio mewn Partneriaeth

Parhaodd Amgueddfa Cymru i weithio mewn partneriaeth a chydweithrediad ag amrywiaeth o gyrff ledled Cymru a'r tu hwnt. Gwelwyd projectau gwahanol iawn gan y ddau brif gynllun– *Cyfoeth Cymru Gyfan* a *Chelf Cymru Gyfan* – i gynnal arddangosfeydd o'r casgliadau cenedlaethol mewn canolfannau bychain ledled Cymru gan ddangos yr amrywiaeth o gyfleoedd y maent yn eu creu. Gwnaed cais llwyddiannus i Ymddiriedolaeth Esmée Fairbairn am dair blynedd arall o gefnogaeth ar gyfer *Celf Cymru Gyfan* ac agorodd y ddwy arddangosfa olaf yn y cylch presennol yng Nghastell Bodelwyddan yn Ionawr 2008 ac yn Oriel Davies yn y Drenewydd yn Chwefror 2008. Roedd y ddau yn cynnwys gweithiau sylweddol o'n casgliadau celf hanesyddol ochr yn ochr â chelf gyfoes.

Cwblhawyd asesiad yr Adrannau Daeareg a BioSyB o gasgliad y Clwb Maes yn Amgueddfa Llandudno, tra dangoswyd *Deinosoriaid yn yr Ardd* yn Amgueddfa Casnewydd yn dilyn ei chyflwyniad yng Nghaerfyrddin. Arddangoswyd trysorau *Celc Tre-gwynt – Ceiniogau, Cromwell a'r Cafalîr* yn llwyddiannus iawn drwy'r haf a'r hydref mewn oriel sydd newydd ei hadfer yn Amgueddfa Plasty Scolton, Sir Benfro.

Datblygodd project sy'n edrych ar Gymru a chaethwasiaeth, *Traed Mewn Cyffion*, a ariannwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, i fod yn arddangosfa bwysig yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe. Ail-grewyd yr arddangosfa wedyn mewn ffurfiau oedd yn addas ar gyfer gwahanol fathau o leoliadau, o amgueddfeydd i lyfrgelloedd cymunedol. I gyd-fynd â hyn, datblygwyd rhaglen addysg gymunedol yn Abertawe, Caerdydd a Chasnewydd.

Buddsoddodd staff yn sylweddol yn y cynlluniau ar gyfer Oriel y Parc yn Nhyddewi. Gan gydweithio'n agos â Pharc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, ffurfiwyd y ganolfan newydd yn Nhyddewi, a fydd yn gallu cynnal arddangosfeydd o'r casgliadau cenedlaethol.

Yng nghynhadledd Ar Dir Cyffredin yr Amgueddfa, *Pobl Ifanc, Treftadaeth a Diwylliant: Creu Dyfodol o'r Gorffennol*, adolygwyd effaith y project sylweddol hwn. Fe'i mynychwyd gan dros gant o gynadleddwyr, gan gynnwys y Gweinidog Treftadaeth, Rhodri Glyn Thomas. Ymysg y siaradwyr roedd academyddion ac ymarferwyr o'r sectorau ieuenctid, treftadaeth a chelf, pobl ifanc a noddwyr.

Cwblhaodd y Swyddog Addysg Archeoleg y gwaith o ddatblygu adnoddau dysgu ar y we am Fynydd Parys, Sir Fôn, mewn cydweithrediad ag athrawon o'r gogledd, dan nawdd Menter Môn. Mynychodd dros 140 o athrawon o bob cwr o Gymru un o'r chwe diwrnod hyfforddi a drefnwyd gan Swyddog Addysg SCAN ar broject 'Bylbiau'r Gwanwyn i Ysgolion'. O ganlyniad mae 141 o ysgolion bellach yn cymryd rhan, ac 17 o'r rheiny mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf, sef y cymunedau mwyaf difreintiedig ledled Cymru.

Hefyd cydweithiodd yr Amgueddfa'n agos â Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a bydd yn parhau i wneud hynny, yn sgil cwblhau adolygiad helaeth o weithgareddau cyfatebol dan strategaeth "Creu'r Cysylltiadau" Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Fformat y Cyfrifon

Caiff y cyfrifon eu paratoi dan Adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 ar ffurf a bennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys. Mae copi o'r Gyfeireb Cyfrifon ar gael oddi wrth Gyfarwyddwr Cyllid yr Amgueddfa. Mae cyfrifon yr Amgueddfa yn cydymffurfio â gofynion y Datganiad o Arferion Cymeradwy (SORP 2005) 'Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau'.

Wedi'u hymgorffori i'r ffigurau cyfunol mae canlyniadau masnachu'r is-gwmni sy'n llwyr eiddo i'r Amgueddfa, sef Mentrau Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru Cyf. Y cwmni hwn sy'n gweithredu holl weithgareddau masnachu'r Amgueddfa. Hefyd o fewn ffigurau'r Amgueddfa mae ei chyfran o 50% o Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe Cyf., menter ar y cyd â Chyngor Dinas a Sir Abertawe i ddatblygu'r amgueddfa newydd yn Abertawe.

Canlyniadau Ariannol y Flwyddyn

Daeth gwerth £3,705,000 o adnoddau cyfunol net i mewn i'r Amgueddfa cyn costau enwol (£2,723,000 yn 2006/07). Daeth cyfanswm o £30,633,000 o adnoddau i mewn i'r Amgueddfa (£29,685,000 yn 2006-07) a gwariwyd cyfanswm o £26,802,000 (£26,696,000 yn 2006-07).
Y cynnydd net mewn cyllid ar gyfer y flwyddyn ar ôl cymryd yr holl enillion a cholledion wedi, a heb eu gwireddu i ystyriaeth oedd £11,135,000 (£1,391,000 yn 2006-07). £103,806,000 oedd balans y gronfa ar 31 Mawrth 2008 (£92,671,000 ar 31 Mawrth 2007). Cofnododd Mentrau Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru Cyf. elw o £308,000 cyn cymorth rhoddion i'r Amgueddfa ar gyfer blwyddyn ariannol 2007/08 (£255,000 yn 2006-07).

Rheoli Risg

Mae Bwrdd, Pwyllgorau a Chyfarwyddwyr yr Amgueddfa yn ystyried y prif beryglon strategol, busnes a gweithredol y mae'r Amgueddfa'n eu hwynebu yn gyson, ac maent wedi sefydlu Gweithgor Rheoli Risg er mwyn sicrhau bod peryglon yn cael eu hadolygu a'u hadrodd ar draws y sefydliad i gyd a bod mesurau lliniaru cadarnhaol perthnasol yn eu lle. Mae'r systemau hyn wedi bod yn gweithredu ers nifer o flynyddoedd ac maent yn parhau i fod yn hollol weithredol yn unol ag arfer da. Mae'r Pwyllgorau Adolygu Perfformiad ac Archwilio yn goruchwylio gwaith y Gweithgor Rheoli Risg. Hefyd, adolygir pob perygl yn flynyddol fel rhan annatod o'r broses cynllunio gweithredol, er mwyn bwydo'r cynllun archwilio mewnol.

Dangosyddion Perfformiad

Yn 2006/07, comisiynodd yr Amgueddfa adolygiad o'n dulliau o werthuso ein gwaith a'n gweithgareddau ar bob lefel. Cyhoeddwyd adroddiad ar yr adolygiad yn Ionawr 2007 a pharhaodd y Grŵp Adolygu Gwerthusiad ag argymhellion yr adroddiad yn 2007-08, gan arwain at gyhoeddi Fframwaith Gwerthuso a Chynllun Gweithredol 2008-09 a gymeradwywyd gan Ymddiriedolwyr yn Ebrill 2008. Yn ystod y Flwyddyn Beilot 2008-09, caiff cynnydd o ran y Cynllun Gweithredol ei fonitro ochr yn ochr â'r gwaith monitro chwarterol arferol yn erbyn y targedau meintiol ac ansoddol a bennwyd, gyda fframwaith cynllunio a gwerthuso integredig llawn yn cychwyn yn 2009-10.

Cafwyd cyfanswm o 1,672,677 o ymweliadau â'n safleoedd yn ystod 2007/08, a hynny yn erbyn targed o 1,500,000. Cafwyd 1,926,781 o ymweliadau â gwefan yr Amgueddfa, oedd eto'n uwch na'r targed o 1,750,000, sy'n brawf o'r twf parhaus yn nifer ein hymwelwyr a defnyddwyr eraill sy'n dewis cyrchu gwybodaeth am ein gwaith dros y we.

Wrth i ni ddogfennu ein holl gasgliadau yn ôl canllawiau'r Gymdeithas Ddogfennu mewn Amgueddfeydd, rydym wedi dal ati i osod yr holl gofnodion am gasgliadau ar gyfrifiadur, gyda'r nod o sicrhau lefelau derbyniol o gofnodion cyfrifiadurol ar gyfer y gwrthrychau yng nghasgliadau'r Amgueddfa. Yn 2007-08, ar sail casgliad o 4,700,000 o eitemau, llwyddwyd i greu cofnodion cyfrifiadurol ar lefel rhestr eiddo, sy'n ein galluogi i adnabod eitem yn gywir ac yn gyflym a nodi ei leoliad, ar gyfer 52.9% o'r casgliadau. Llwyddwyd i greu cofnodion lefel catalog, sy'n cynnwys data academaidd a chyfeirnodau cyhoeddiadau, ar gyfer 29.1% o'r casgliadau. Roedd y ffigurau hyn ychydig yn is na'r targedau a bennwyd ar gyfer y flwyddyn (55% a 30%) yn sgil y baich gwaith trwm oedd ar guraduron yng ngoleuni rhaglen gyhoeddus brysur Blwyddyn y Canmlwyddiant. Serch hynny, mae cynnydd cyson yn parhau yn y maes hwn gyda'r disgwyliad y byddwn yn cyrraedd y targedau yn 2008-09.

Roedd nifer y projectau ymchwil (142) yn ystod y flwyddyn yn uwch na'r targed (100), gan ddangos cryfder parhaus gwaith yr Amgueddfa wrth ledaenu'r wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r casgliadau.

Buddsoddiadau Cyfalaf

Fel sail i gyflawni Gweledigaeth yr Amgueddfa, mae rhaglen sylweddol o waith cyfalaf yn parhau, ac mae'r rhaglen cynllunio cyfalaf yn canolbwyntio ar ailddiffinio ein dwy Amgueddfa fwyaf poblogaidd o ran niferoedd ymwelwyr. Daeth Sain Ffagan yn amgueddfa i gyflwyno hanes Cymru a bydd Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays yn esblygu i greu dwy amgueddfa gysylltiedig, Amgueddfa Hanes Natur Cymru ac Amgueddfa Gelf Cymru.

Canolbwyntiodd y gwaith cynnar yn y maes hwn ar sicrhau bod y casgliadau yn cael eu storio mewn ffordd briodol. Yna cefnogwyd hyn drwy edrych ar y gwaith cynnal a chadw sylweddol a fydd, ar ôl ei gwblhau'n llawn, yn sicrhau bod yr Amgueddfeydd yn ddiogel rhag bob tywydd, gyda gwell mannau cyhoeddus, ac y caiff y casgliadau parhaol eu hailarddangos yn y llefydd hyn.

Mae'r projectau cychwynnol o fewn yr Uwchgynllun wedi cynnwys:

Project Gofal a Mynediad at y Casgliadau
Y prif ddatblygiad yn ystod y flwyddyn oedd cwblhau'r gwaith ar adeilad y Ganolfan Casgliadau Domestig yn Sain Ffagan yn ogystal ag adnewyddu'r storfa "Atcost" sy'n cadw casgliadau amaethyddol yr Amgueddfa. Er mwyn hwyluso'r gwaith hwn, symudwyd y casgliadau i'r adeilad newydd yn Nantgarw dros dro. Gyda gwariant o £1.1m yn 2007-08, cododd cyfanswm y gwariant ar y project hwn i'r gyllideb wreiddiol o £4.4m.

Yn ogystal, yn 2008-09 rydym yn disgwyl ailwampio dwy storfa serameg yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd i greu storfa arbenigol ar gyfer gweithiau Celf mwy.

Gwaith Cynnal a Chadw Hanfodol
Rhoddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ymrwymiad o £3.0m dros gyfnod o dair blynedd, oedd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2008, er mwyn galluogi'r Amgueddfa i ddechrau edrych ar rai o'r buddsoddiadau cyfalaf tymor hwy sy'n ei hwynebu. Tra bod y mwyafrif o'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar drwsio rhannau diffygiol o'r to yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a Sain Ffagan, bydd angen gwella'r gwasanaethau trydanol ar draws y ddau safle hefyd. Er mwyn gwneud y gorau o effaith yr arian hwn, ychwanegodd yr Amgueddfa £500k y flwyddyn o'i gyllideb cyfalaf er mwyn galluogi i'r gwaith barhau.

Er mwyn adlewyrchu'r blaenoriaethau hyn, yn ystod 2007-08, cwblhawyd y gwaith o adnewyddu'r gorchudd to ar adain ddwyreiniol Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, ac yn Sain Ffagan, bu'r gwaith yn canolbwyntio ar adfer to diffygiol y fynedfa ac un o'r orielau. Gwariwyd cyfanswm o £1.7m ar yr eitemau cynnal a chadw hyn.

Ailarddangos y Casgliadau
Cwblhawyd y gwaith o ail-arddangos y casgliadau Archeoleg yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd drwy eu gosod mewn arddangosfa newydd o'r enw *Gwreiddiau*, a agorodd ym mis Tachwedd 2007.

Roedd y gwaith cynnal a chadw hanfodol yng ngweddill adain ddwyreiniol Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn golygu bod yn rhaid tynnu'r casgliad celf i lawr er mwyn paratoi ar gyfer ailwampio'r orielau'n llwyr. Ailagorwyd yr orielau cyntaf ym mis Tachwedd 2007. Cyn hynny, cafwyd arddangosfa newydd o gasgliadau'r Chwiorydd Davies yn y Bloc Canol.

Gwerthuso Asedau Sefydlog

Yn unol â pholisïau cyfrifo'r Amgueddfa, cafodd asedau a adbrisiwyd yn broffesiynol ddiwethaf ar 31 Mawrth 2006, eu hadbrisio gan ddefnyddio'r mynegai, er mwyn darparu amcan-werthusiad yn hytrach na defnyddio arian elusennol ar adbrisiadau blynyddol. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r mynegai tan yr adbrisiad proffesiynol nesaf ymhen 3 blynedd, pan fydd addasiadau i'r gwerth.

Yr unig asedau na adbrisiwyd yn ôl y mynegai oedd yr asedau TG, oherwydd y gostyngiad cyffredinol ym mhris asedau TG dros amser, a'r asedau treftadaeth. Nid yw'r asedau treftadaeth a gafwyd cyn 1 Ebrill 2001 wedi eu cyfalafu, ac mae asedau treftadaeth ers y dyddiad hwnnw wedi cael eu cofnodi ar bris cost. Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn bod costau prisio asedau treftadaeth yn rhwystr.

Caffael Sbesimenau

Mae nifer yr eitemau mawr a gafwyd yn isel o hyd oherwydd natur ddisymud y gronfa caffael sbesimenau o'i gymharu â chwyddiant y farchnad celf a chreiriau.

Fodd bynnag, gyda chymorth cefnogwyr a noddwyr, bu modd gwneud ambell i bryniant mawr. Yn eu mysg roedd:

- Pedwar darn serameg wedi'u haddurno gan Pablo Picasso ddiwedd y 1940au, wedi'u prynu oddi wrth amrywiol werthwyr am gyfanswm o £253,000. Bydd y grŵp hwn yn unigryw ymysg amgueddfeydd cenedlaethol Prydain wrth gynrychioli gwaith serameg Picasso.

- Llun dyfrlliw gan yr arlunydd Rwsiaidd, Vassily Kandinsky o'r enw *Cilgant Gwyrdd Asid* (1927). Mae'r darlun hwn mor bwysig am ei hanes – fe'i dangoswyd yn arddangosfa 'Celf Dirywiol' enwog yn yr Almaen Natsiaidd yn 1937 – ag y mae am ei rinwedd esthetig. Fe'i prynwyd o gasgliad preifat am £290,000.

Prynwyd y ddau uchod i ddathlu canmlwyddiant yr Amgueddfa, gan ddefnyddio arian cronfa a sefydlwyd ar y cyd gan yr Amgueddfa ac Ymddiriedolaeth Derek Williams at ddibenion prynu darnau addas o waith celf fodern a chyfoes i ddathlu'r canmlwyddiant. Bu Ymddiriedolaeth Derek Williams yn gefnogwr sylweddol i'r Amgueddfa am gyfnod hir, ac roedd croeso arbennig i'r fenter hon.

- Prynwyd saith llun gan Syr Cedric Morris (1889-1982) am £42,000 drwy gytundeb preifat. Cefnogwyd y pryniant hwn hefyd gan Ymddiriedolaeth Derek Williams.

- Prynodd yr Amgueddfa a Llyfrgell Genedlaethol Cymru chwe braslun o Forgannwg a Chwm Nedd gan G. O. Delamotte, 1820, ar y cyd. Mae tri o'r gweithiau'r un yng nghasgliadau'r ddau sefydliad, a'r gost i'r Amgueddfa oedd £11,760.

- Prynwyd pâr o ddysglau saws a gynlluniodd Robert Adam ar gyfer Syr Watkin Williams Wynn ym 1773 am £71,000 gyda chymorth y Gronfa Gelf.

- Derbyniwyd panel cerfwedd oreurog o waith Syr Edward Burne-Jones, *Persews a'r Graiae*, yn lle trethi etifeddiaeth, ac fe'i rhoddwyd i'r Amgueddfa drwy Lywodraeth Cynulliad Cymru. Talwyd y balans o £60,000, yn rhannol trwy grant oddi wrth y Gronfa Gelf, a gosodwyd prisiad o £250,000 ar y grât yng nghyfrifon yr Amgueddfa.

Cafwyd caffaeliadau pwysig eraill diolch i gyfraniadau, cymynroddion a gwaith maes. Yn eu plith:

- Cyfraniad yr Athro A. Richards o gasgliad o tua 7,000 o sbesimenau o ddant y llew ar gyfer Llysieufa Genedlaethol Cymru.

- Cyfraniad Prifysgol Caerdydd o 500 o sbesimenau o faes ymchwil i blanhigion meddygol.

- Cloch ac uniad strap ceffyl enamlog La Tène mawr o Gwm Parc, cwm Rhondda, o'r ganrif 1af OC a gyfrannwyd gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru.

- Ysgubor a sied lloi Kennixton, penrhyn Gŵyr a gyfrannwyd gan y Boneddigion Glyn a David Rogers, yr oedd eu teulu wedi cyfrannu'r ffermdy gwreiddiol i'r Amgueddfa i'w ail-godi yn Sain Ffagan yn y 1950au. Bydd yr adeiladau hyn yn ymuno â'r ffermdy.

Ceir manylion am yr holl asedau treftadaeth unigol gwerth dros £5,000 a gafwyd yn ystod y flwyddyn yn Nodyn 10 i'r cyfrifon.

Codi arian a gwirfoddolwyr

Cyfanswm yr incwm a gafodd Adran Ddatblygu'r Amgueddfa eleni oedd £876k, o nifer o ffynonellau cyhoeddus, ymddiriedolaethau a sefydliadau, cwmnïau ac unigolion. At hynny, cafwyd £542k o addewidion.

Mae nifer o fentrau tymor hir ar y gweill ond sydd heb eu hadlewyrchu yn y ffigurau hyn – fel hyrwyddo treftadaeth, denu nawdd corfforaethol a nifer o gyfranwyr sylweddol. Dechreuodd yr Adran Ddatblygu gynllunio ar gyfer cynhyrchu incwm i ailddatblygu Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru.

Parhaodd Cyfeillion yr Amgueddfa i gefnogi ein gwaith drwy eu haelodaeth a'u gwaith eiriolaeth wrth recriwtio cefnogwyr eraill i'r cynllun. Yn 2007, lansiodd yr Adran Ddatblygu Apêl Canmlwyddiant y Noddwyr. Daeth hyn i ben yn ddiweddar ar ôl cynhyrchu dros £43k, gan gynnwys rhoddion cymorth. Defnyddiwyd yr arian i brynu eitemau ar gyfer Eglwys Sant Teilo yn Sain Ffagan.

Yn ystod y flwyddyn, cytunodd y Bwrdd Datblygu, sy'n cynnwys unigolion sydd wedi cytuno i helpu'r Amgueddfa i fodloni'r targedau o ran codi arian, i ddechrau canolbwyntio ar brojectau allweddol, yn arbennig ailwampio Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru. Helpodd un o'i aelodau i hwyluso grant gan Gymdeithas Adeiladu Principality, ac yn dilyn hyn, cyflwynodd yr Amgueddfa gais llwyddiannus i'r Principality am un o wobrau mawr Celf a Busnes Cymru.

Parhaodd Cyfeillion yr Amgueddfa i gefnogi ein gwaith trwy dri prif ddull. Yn gyntaf, fel llysgenhadon dros waith yr Amgueddfa, gan ddarparu rhaglen o sgyrsiau, teithiau a gweithgareddau eraill sy'n ategu gweithgareddau addysg yr Amgueddfa ei hun.

Yn ail, mae'r Cyfeillion yn darparu grŵp o wirfoddolwyr i gefnogi gweithgareddau'r Amgueddfa. Y Cyfeillion sy'n croesawu ac yn cyfarch grwpiau ac unigolion, fel grwpiau Cyfeillion amgueddfeydd eraill, ymwelwyr achlysurol â diddordeb arbennig ac maent hefyd yn cynorthwyo'r staff curadurol ar draws holl sbectrwm gweithgareddau'r Amgueddfa. Mae'n bwysig nodi bod yr Amgueddfa'n gweld hyn fel ychwanegiad gwerthfawr yn hytrach na gwirfoddolwyr yn cyflawni ein gwaith craidd ar ein rhan. Manteisiodd yr Amgueddfa ar 285 awr o wirfoddoli gan y Cyfeillion.

Yn drydydd, mae'r Cyfeillion yn rhoi cymorth ariannol i nifer o brojectau hefyd, ac eleni cafwyd cyfraniadau hael at le addysg, grantiau ymchwil, datblygiad Oriel 1 yn Sain Ffagan, yr arddangosfa *Gwreiddiau* ac adain ddwyreiniol Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.

Perfformiad Taliad Prydlon

Mae'r Amgueddfa'n cefnogi amcanion cod ymarfer *Better Payment* Trysorlys ei Mawrhydi a'i

nod yw talu anfonebau dilys o fewn 30 diwrnod. Wyth niwrnod oedd y cyfnod cyfartalog ar gyfer talu anfonebau yn 2007/08 (7 diwrnod yn 2006/07) a thalwyd 98% (yn ôl nifer) o'r holl anfonebau cyn pen 30 diwrnod (98% yn 2006/07). Ni wnaed taliad llog dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998 (£Dim yn 2006-07).

Cynaladwyedd

Yn 2007-08, parhaodd yr Amgueddfa i ddatblygu trefniadau a dulliau cyfathrebu a ehangodd gynaladwyedd ein gweithredoedd pob dydd, yn ogystal â dealltwriaeth ein hymwelwyr o faterion ym maes y newid yn yr hinsawdd a'r bygythiad i fioamrywiaeth leol a byd-eang.

Cynhaliodd Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru ei Hachrediad Amgylcheddol Lefel 3 o fewn Cynllun y 'Ddraig Werdd'. Cadwodd Big Pit, Amgueddfa Lechi Cymru, Amgueddfa Wlân Cymru, Sain Ffagan ac Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd eu statws Lefel 2 a gwnaeth Amgueddfa Genedlaethol y Glannau a'r Ganolfan Gasgliadau waith paratoi ar gyfer statws Lefel 2 yn 2008-09.

Cychwynnodd yr Amgueddfa bartneriaeth ffurfiol gyda'r Ymddiriedolaeth Carbon a fydd yn gweithio gyda ni dros y blynyddoedd nesaf i'n helpu ni i leihau ein hôl troed carbon.

Y Polisi ar Gronfeydd Cadw

Fel corff sy'n casglu a chynnal casgliadau er mwyn cyflawni ei nodau a'i hamcanion, mae'r polisi ar gronfeydd cadw a nodir yma'n berthnasol i gronfeydd arian i'w wario yn unig.

Ar hyn o bryd, mae'r polisi hwn yn dibynnu ar yr awdurdod a roddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn Natganiad Rheoli a Memorandwm Cyllid yr Amgueddfa, oedd yn cyfyngu'r cronfeydd cadw ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2007-08 i 2% o'i chymhorthdal grant, gydag eithriadau rhag unrhyw gyfyngiad o ran y Grant Prynu Sbesimenau ac incwm y mae'n ei gynhyrchu ei hunan. Gall eithriadau pellach fod ar gael ar gais o ran Amgueddfa Genedlaethol y Glannau (i adlewyrchu'r trefniant cyd-ariannu gyda Dinas a Sir Abertawe), a phrojectau cyfalaf sy'n pontio dros ddiwedd y flwyddyn ariannol. Nid yw'r Amgueddfa'n fodlon ar y gofyniad i osod y cyfyngiadau blynyddol hyn ar gario arian drosodd o fewn y CNLC am ein bod ni'n credu y gallai hynny atal rheolaeth ariannol gofalus ac annog gwariant mewn blwyddyn er mwyn lleihau'r balans ariannol y gellir ei fuddsoddi ar ôl y rhwystr artiffisial a grëir gan ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Serch hynny, o fewn y cyfyngiadau hyn, yn ystod 2008-09 bydd yr Amgueddfa'n ceisio cynhyrchu cronfeydd ariannol er mwyn lleihau a gohirio effaith bosibl y dyraniadau cymhorthdal grant a dderbyniwyd gan y Cynulliad ar gyfer 2009-10 a 2010-11 ar ei gweithgareddau.

Cynhelir cronfeydd preifat ar wahân ac fe'u nodir yn y cyfrifon. Nid oes unrhyw derfyn ar gludo'r rhain ymlaen, a pholisi'r Amgueddfa yw datblygu'r cronfeydd hyn a'u defnyddio ar gyfer projectau a chynlluniau cyfalaf nad ydynt yn cael cyllid craidd na chymhorthdal grant, gan gadw oddi mewn i gyfyngiadau ar ddefnydd o fewn Cronfeydd Preifat.

Caiff elw'r is-gwmni masnachu sy'n llwyr eiddo i'r Amgueddfa, sef Mentrau AOCC Cyfyngedig, ei ddefnyddio i ddarparu cyllid ychwanegol tuag at gyflawni nodau ac amcanion yr Amgueddfa. Ar adegau, gall hyn olygu ail-fuddsoddi elw yn yr is-gwmni masnachu er mwyn gwella'r canlyniadau masnachol ymhellach. Bydd y trefniadau i drosglwyddo'r elw i'r Amgueddfa hefyd yn rhoi sylw priodol i gadw goblygiadau treth y gwaith masnachu mor isel â phosibl.

Mae'r Amgueddfa wedi cychwyn ar gynllun tymor hir o ddatblygu cyfalaf ac adnewyddu. Er mwyn cyfrannu at y datblygiadau hyn, mae'n hanfodol cadw'r hyblygrwydd mwyaf posibl o ran cronfeydd, ar ffurf cludo arian ymlaen a chadw elw masnachol.

Cyfanswm Cronfeydd yr Amgueddfa ar 31 Mawrth 2008 oedd £103,806,000. Ceir dadansoddiad yn y nodiadau sy'n cyd-fynd â'r Cyfrifon Ariannol.

Polisi a Pherfformiad y Buddsoddiadau

Yr ymgynghorwyr buddsoddi annibynnol, Gerrard Investment Management Cyf. sy'n buddsoddi cronfeydd preifat yr Amgueddfa ar ei ran. Mae ganddynt agwedd ddarbodus o ran risgiau, buddsoddir y cronfeydd mewn portffolio risg canolig ac mae elfen sylweddol yn cael ei chadw mewn buddsoddiadau arian parod. Caiff perfformiad y cronfeydd hyn ei adolygu'n gyson. Syrthiodd gwerth y portffolio yn ystod y flwyddyn, o £2,092k i £1,848k, sy'n adlewyrchu'r symudiad cyffredinol mewn buddsoddiadau ar y farchnad stoc.

Hefyd cadwodd yr Amgueddfa fuddsoddiad ecwiti mewn unarddeg cwmni da ar ffurf cymynroddion. Syrthiodd gwerth y portffolio hwn hefyd yn ystod y flwyddyn o £104k i £83k.

Rhwymedigaethau Pensiwn

Mae gan yr Amgueddfa gynllun pensiwn â buddion diffiniedig sydd ar gael i'w holl staff parhaol. Yn yr un ffordd â'r mwyafrif helaeth o gynlluniau o'r fath, mae gwerthusiad blynyddol ar gyfer y cyfrifon statudol wedi dangos diffyg asedau o'i gymharu â rhwymedigaethau'r cynllun. Achoswyd y diffyg gan gwymp sylweddol yng ngwerth buddsoddiadau'r cynllun, yn arbennig y buddsoddiadau ecwiti, rhai blynyddoedd yn ôl. Tra bod adenillion buddsoddiadau yn parhau i amrywio, gall ffactorau eraill effeithio ar werthusiad y cynllun hefyd, gan gynnwys hirhoedledd yr aelodau. Fodd bynnag, mae'n arwyddocaol nodi bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cyhoeddi Gwarant y Goron ar 21 Mehefin 2006 mewn perthynas â 'phob swm sydd ei angen i sicrhau bod asedau'r cynllun yn ddigonol i dalu ei holl rwymedigaethau'.

Ceir manylion am y modd y cyfrifir costau pensiwn yn y nodyn ar bolisïau cyfrifo sy'n cyd-fynd â'r cyfrifon. Mae nodyn 16 i'r Adroddiad Ariannol yn cynnwys y manylion datgelu y gofynnir amdanynt dan Ddatganiad Adroddiad Ariannol 17, ac yn cymharu gwerth asedau'r cynllun heddiw â'i rhwymedigaethau posibl. Ar 31 Mawrth 2008, roedd gwerth diffyg y cynllun wedi syrthio i £11.754m o'i gymharu â diffyg cychwynnol o £14.001m. Rhan allweddol o sefyllfa cyfrifon y cynllun yw graddfa'r gostyngiad sy'n cael ei ddefnyddio er mwyn cyfrifo gwerth cyfredol y rhwymedigaethau. Mae rheidrwydd ar yr Amgueddfa i gydymffurfio â chanllawiau'r Trysorlys, sydd eleni'n cynnwys cyfarwyddyd y dylid defnyddio graddfa gostyngiad o 2.5% dros ben y gyfradd chwyddiant. Cymrodd actwari'r cynllun y raddfa angenrheidiol i ystyriaeth wrth gyfrifo. Mae'r cwymp ym malans y diffyg yn y cynllun yn bennaf oherwydd cyfradd disgownt uwch o'i gymharu â graddfa o 1.8% llynedd. Mae hyn wedi lleihau'r rhwymedigaethau'n sylweddol. Mae'r effaith wedi ei leddfu rhywfaint gan y cwymp mewn buddsoddiadau ecwiti.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Amgueddfa wedi cymryd gwahanol gamau i fynd i'r afael â'r diffyg, gan gynnwys cynnydd o 4.5% yng nghyfraniadau'r cyflogwr i'r 21.3% cyfredol, a chafwyd hwb ariannol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd yr Amgueddfa'n dal ati i ofyn i'r Cynulliad am gymorth ariannol i'r Cynllun. Yn y cyfamser, cytunodd yr Amgueddfa ac Ymddiriedolwyr y Cynllun y bydd y lefel gyfredol o gyfraniadau yn dileu'r diffyg dros gyfnod derbyniol o amser, gan ystyried Gwarant y Goron.

Datblygiadau at y dyfodol

Defnyddiodd yr Amgueddfa blwyddyn ei Chanmlwyddiant fel llwyfan i yrru ein gweledigaeth i fod yn 'amgueddfa ddysg o safon ryngwladol'. Gan adeiladu ar y gwaith a wnaed ar y weledigaeth yn 2005, oedd yn cynnwys ymgynghori â dros 5,000 o sefydliadau ac unigolion yng Nghymru a'r tu hwnt, ystyriwyd y syniadau a fynegwyd drwy'r broses wrth baratoi ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Yn fras, roedd consensws cyffredinol mewn nifer o feysydd sef:

1. Yr angen i rannu Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd i greu Amgueddfa Gwyddorau Natur Cymru ar y llawr gwaelod ac Amgueddfa Gelf Cymru ar y lloriau uchaf.

2. Y byddai symud y casgliadau Archeoleg i Sain Ffagan a datblygu'r safle yn sylweddol yn y dyfodol o fudd wrth ddatblygu'r safle i greu amgueddfa hanes Cymru.

3. Bod angen i'r Amgueddfa ddatblygu ei hadnoddau celf er mwyn paratoi ar gyfer datblygu Oriel Gelf i Gymru.

4. Bod ein trefniadau partneriaeth cyfoes eisoes yn ymestyn mynediad at ein casgliadau ledled Cymru a'r tu hwnt, ac y dylid cynnal a datblygu hyn.

5. Bod y cyhoedd eisoes yn defnyddio llawer o asedau deallusol yr Amgueddfa dros y we, ond y bydd datblygiad yr 'amgueddfa rithwir' yn gwella'r ddarpariaeth hon.

Ar sail y cefndir hwn, asesodd yr Amgueddfa flaenoriaethau cymharol ei datblygiadau fel a ganlyn:

i. Cwblhau'r project cynnal a chadw hanfodol er mwyn edrych ar y llwyth sylweddol o waith cynnal a chadw sydd wedi cronni yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru.
ii. Trawsnewid orielau yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd er mwyn ehangu'r lle sydd ar gael i arddangos celf, a rhoi mwy o ffocws a lle i'r gwyddorau natur.
iii. Cynorthwyo Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro yn ei ddyheadau i droi Canolfan Ymwelwyr Tyddewi yn ganolfan amgylcheddol a fydd yn gartref i gasgliad Graham Sutherland a adawyd mewn ymddiriedolaeth i'r Amgueddfa.
iv. Datblygu cyfleusterau Sain Ffagan er mwyn ei throi'n amgueddfa hanes Cymru.

v. Datblygu argymhellion er mwyn creu Oriel Gelf Cymru mewn lleoliad sydd heb ei glustnodi hyd yn hyn, trwy gyflawni gwerthusiad o'r opsiynau sydd ar gael ar y cyd â Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Yn Sain Ffagan, mae gwaith wedi dechrau ar strategaeth i ailddatblygu atyniad ymwelwyr mwyaf poblogaidd y wlad gan greu amgueddfa hanes Cymru. Rhoddodd ymgynghoriad 2005 arweiniad clir i'r Amgueddfa am ddymuniad y cyhoedd o ran dyfodol Sain Ffagan, gan gadarnhau'r hyn y mae nifer o ymwelwyr o Gymru a'r tu hwnt wedi bod yn ei ddweud wrthym dros y blynyddoedd – sef taw Sain Ffagan yw'r lle y mae nifer o bobl yn troi ati gan ddisgwyl cael profiad o hanes datblygiad y genedl.

Dros y ddeng mlynedd nesaf, caiff Sain Ffagan ei datblygu i fod yn lle sy'n adrodd hanes bobl a chenedl Cymru, o'r cyfnod cynharaf hyd heddiw. Bydd y datblygiad yn ehangu'r hyn sydd gan Sain Ffagan i'w gynnig drwy wneud mwy o synnwyr o'r safle a gosod yr adeiladau cyfoes a'r casgliadau bywyd gwerin yng nghyd-destun ehangach hanes Cymru.

Caiff llawer o'r casgliadau archeoleg sy'n gynharach na'r cyfnod modern eu symud o Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yng nghanol y ddinas, a'u hailarddangos yn Sain Ffagan er mwyn adrodd y stori gyflawn. Y nod yw bodloni disgwyliadau ymwelwyr sydd am ddysgu rhagor am wreiddiau Cymru a pham ei bod yn wlad mor amrywiol heddiw.

Polisïau mewn Perthynas â Staff

Cyfleoedd Cyfartal
Mae'r Amgueddfa yn parhau i weithredu trefniadau recriwtio heb gamwahaniaethu, ac felly mae'n cyfweld ac yn penodi ar sail teilyngdod yn unig. Mae'r Amgueddfa'n gweithio gydag Ymgynghorwyr ym maes Cyflogi Pobl ag Anableddau er mwyn sicrhau bod anghenion pobl ag anableddau yn cael eu bodloni ar ôl eu penodi. Caiff gweithwyr sy'n dioddef o anabledd yn ystod eu cyflogaeth eu cynorthwyo yn yr un modd – a gwneir pob ymdrech i sicrhau bod modd i weithwyr aros mewn cyflogaeth.

Yn fwy na hynny, mae'r Amgueddfa'n parhau i fuddsoddi mewn cyfleusterau cyhoeddus er mwyn gwella mynediad at adeiladau a gwybodaeth i bobl ag anableddau. Er mwyn helpu gyda'r gwaith hwn, mae'r Amgueddfa wedi hyfforddi dros 60 o weithwyr i fod yn Eiriolwyr Anabledd dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r grŵp yn hyrwyddo amrywiaeth ar draws y sefydliad ac yn gweithio at y Model Cymdeithasol ar gyfer Anableddau.

Yn ogystal â'i pholisi ar ymgysylltu â phobl ag anabledd, mae gan yr Amgueddfa bolisi Cyfleoedd Cyfartal, sy'n ymrwymo'r sefydliad i 'ddileu pob math o wahaniaethu ac aflonyddwch yn y sefydliad'.

Ymgynghori â Staff
Mae'r Amgueddfa yn parhau i gydymffurfio â Rheoliadau Gwybodaeth ac Ymgynghori 2005 gan ymgynghori â staff, yn uniongyrchol a'r thrwy undebau cydnabyddedig, ar y prif newidiadau sy'n digwydd o fewn y sefydliad. Ategir y gofyniad cyfreithiol hwn i ymgynghori ag amrywiol ddulliau atodol sy'n cynnwys cyfarfodydd staff, cyfarfodydd adrannol, gweithgorau, negeseuon e-bost, y fewnrwyd a dulliau anffurfiol o gyfathrebu fel y bo'n briodol.

Hyfforddi Staff
Mae'r Amgueddfa'n parhau i fuddsoddi amser ac adnoddau er mwyn darparu cyfleoedd datblygu a hyfforddiant (ffurfiol ac anffurfiol) i'w holl staff. Clustnodwyd statws Buddsoddwyr Mewn Pobl fel mesur allanol o'r ymrwymiad hwn. Mae Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru, Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru ac Amgueddfa Lechi Cymru wedi llwyddo i ennill yr achrediad hwn. Mae Amgueddfa Genedlaethol y Glannau a Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru yn gweithio tuag at achrediad.

Adroddiad ar Daliadau
Mae'r Amgueddfa'n talu pob aelod o staff dan system gyflogau a graddfeydd a gytunwyd, a gynlluniwyd ac a gyflwynwyd yn benodol er mwyn sicrhau triniaeth deg a chyfiawn. Mae'n cwmpasu'r holl weithwyr, ac eithrio'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, am fod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n pennu amodau a thelerau ei benodiad. Mae proses apêl annibynnol ar gael er mwyn ystyried graddfeydd.

Bob blwyddyn mae gweithgor yn dod at ei gilydd i drafod cyflogau'r Amgueddfa ac yn llunio argymhellion o ran cyflogau a gyflwynir i Lywodraeth Cynulliad Cymru am gymeradwyaeth ac sy'n sail i'r trafodaethau gyda'r undebau llafur cydnabyddedig. Mae pecyn cyflogau ac amodau newydd ar gyfer yr Amgueddfa i gyd yn codi o hyn. Rhaid cadw at hyn tan y cylch trafod nesaf. Mae cynnydd blynyddol o dan y cylch cyflogau'n dibynnu ar system yr Amgueddfa o adolygiadau o ddatblygiad personol. Mae'r holl staff yn derbyn yr elfennau chwyddiant a gynhwysir yn y cylch cyflogau yn awtomatig.

Mae cyflog y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cynnwys cyflog sylfaenol ynghyd â bonws blynyddol. Mae'r Pwyllgor Taliadau, sy'n cynnwys y Llywydd, yr Is-lywydd, y Trysorydd a Dr W. B. Willott, yn cytuno ar faint y bonws (hyd at uchafswm o 10% o'i gyflog). Wrth ystyried maint y bonws, caiff perfformiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol ei adolygu yn erbyn set o amcanion a bennir ymlaen llaw, a bydd y Pwyllgor Taliadau'n ystyried y gwerthusiad. Caiff canran o'r bonws ei gyfuno i gyflog blynyddol y Cyfarwyddwr, a chaiff y swm ei benderfynu ar sail canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Rhestrir aelodau Bwrdd Cyfarwyddwyr yr Amgueddfa ar dudalen 12 a cheir rhagor o fanylion am daliadau a budd-daliadau pensiwn y cyfarwyddwyr yn nodyn 7(c) i'r Cyfrifon. Nid oes unrhyw un o'r cyfarwyddwyr ar gytundeb tymor penodol, a chyflogir pob un, heblaw'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, o dan amodau a thelerau arferol yr Amgueddfa. Mae unrhyw addasiadau i amodau a thelerau'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn dibynnu ar gytundeb y Pwyllgor Taliadau a Llywodraeth Cynulliad Cymru, lle bo hynny'n briodol.

Rhaid i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol roi 6 mis o rybudd os yw'n bwriadu rhoi'r gorau i'w swydd. Mae cyfnodau rhybudd gweddill y Cyfarwyddwyr yn amrywio yn ôl hyd eu gwasanaeth. Mae angen rhoi 1 wythnos o rybudd am bob blwyddyn o wasanaeth (ac 1 wythnos ychwanegol) hyd at uchafswm o 13 wythnos. Dyma ddyddiadau cychwyn cyflogaeth y Cyfarwyddwyr: Michael Houlihan (Cyfarwyddwr Cyffredinol) – 14 Ebrill 2003; Eurwyn Wiliam – 29 Medi 1971; Jon Sheppard – 1 Tachwedd 2002; John Williams-Davies – 1 Medi 1973; Michael Tooby – 1 Ionawr 2000; Mark Richards – 25 Ionawr 1999; Robin Gwyn – 1 Chwefror 2001. Disgrifir y ddarpariaeth ar gyfer iawndal am derfyniad cynnar yng nghytundeb diswyddo arferol yr Amgueddfa.

Caiff yr Adroddiad Taliadau a'r manylion yn nodyn 7(c) i'r Cyfrifon eu harchwilio.

Polisi Iaith

Disgwylir i bob CNLC lunio ac adolygu strategaeth i brif-ffrydio'r Gymraeg bob blwyddyn (sy'n cynnwys gweithredu Cynllun Iaith). Gweithredwyd Strategaeth Prif-ffrydio'r Amgueddfa ar gyfer 2007/08 yn llwyr ac fe'i diwygiwyd wedyn i adlewyrchu goblygiadau prif-ffrydio Cynllun Gweithredu cyffredinol 2008-09.

Yr Archwilydd

Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n archwilio'r cyfrifon yn ôl gofynion Adran 9 (8) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992. Mae manylion tâl yr archwilydd ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2008 yn Nodyn 6 i'r Cyfrifon Ariannol.

Prif Swyddfa

Prif swyddfa Amgueddfa Cymru yw: Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP.

Prif Ymgynghorwyr

Bancwyr: Banc Lloyds TSB CCC, Caerdydd

Cyfreithwyr: Geldards LLP, Caerdydd

Archwilwyr mewnol: RSM Bentley Jennison, Caerdydd

Rheolwyr buddsoddiadau: Gerrard Investment Management Cyf., Caerdydd

Rheolwyr y gronfa bensiynau: BBS Consultants and Actuaries LLP, Bryste

Trethiant: Deloitte & Touche LLP, Caerdydd

Michael Houlihan
Swyddog Cyfrifo a Chyfarwyddwr Cyffredinol Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 23 Gorffennaf 2008

J. Peter W. Morgan
Trysorydd, ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 23 Gorffennaf 2008

BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR

(O 1 Ebrill 2007 ymlaen)

Llywydd

Paul E. Loveluck, CBE, JP, BA *

Cyn-lywydd Diwethaf

Mathew Prichard, CBE, DL, BA (tan 31 Hydref 2007)

Is-lywydd

Dr Susan J. Davies, BA * (tan 31 Hydref 2007)
Elisabeth Elias, MA, DL * (Aelod o'r Bwrdd tan ei phenodiad yn Is-lywydd ar 1 Hydref 2007)

Trysorydd

G. Wyn Howells, ACIB * (tan 31 Hydref 2007)
J. Peter W. Morgan, M.Sc., FCA * (Aelod o'r Bwrdd tan ei benodiad yn Drysorydd ar 31 Hydref 2007)

Penodiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru

Rhiannon Wyn Hughes, MBE
H. R. C. Williams
Gareth Williams
Carole-Anne Davies (o 1 Tachwedd 2007 ymlaen)
Miriam Hazel Griffiths (o 1 Tachwedd 2007 ymlaen)
Yr Athro Gareth Wyn Jones (o 1 Tachwedd 2007 ymlaen)
Christina Macaulay (o 1 Tachwedd 2007 ymlaen)

Penodiadau Amgueddfa Cymru

Dr Iolo ap Gwynn, B.Sc., Ph.D., FRMS
J. W. Evans CBE, MA (tan 21 Mehefin 2007)
Yr Athro C. L. Jones OBE, FRSA
Jane Peirson Jones, MA, FMA (bu farw 13 Medi 2007)
Yr Athro J. Last, CBE, MA, D.Litt, Hon FMA, FRSA
D. Bowen Lewis (tan 31 Hydref 2007)
Dr W. B. Willott, C.B.
Yr Athro Jonathan P. Osmond (o 1 Tachwedd 2007 ymlaen)
Dr Haydn Ellis Edwards (o 1 Tachwedd 2007 ymlaen)

* Yn dynodi aelodau'r Pwyllgor Archwilio

Y CYFARWYDDWYR

(O 1 Ebrill 2007 ymlaen)

Cyfarwyddwr Cyffredinol	Michael Houlihan
Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil, (Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol)	Eurwyn Wiliam
Cyfarwyddwr Cyllid	Jon Sheppard
Cyfarwyddwr Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru	John Williams-Davies
Cyfarwyddwr Dysgu a Rhaglennu	Michael Tooby
Cyfarwyddwr Gweithredu	Mark Richards
Cyfarwyddwr Cyfathrebu	Robin Gwyn

Datganiad o Gyfrifoldebau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol

O dan adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992, rhaid i Fwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail a bennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gyda chaniatâd y Trysorlys. Paratoir y cyfrifon i ddangos darlun gwir a theg o weithgareddau ariannol yr Amgueddfa a'i hadnoddau, enillion a cholledion net wedi a heb ei gwireddu, a llif arian yn ystod y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon rhaid i'r Ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol gydymffurfio â gofynion y Datganiad o Arferion Cymeradwy (2005): Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, yn benodol:

- dilyn cyfarwyddyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru o ran cyfrifo, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a'u defnyddio nhw a'r polisïau cyfrifo perthnasol mewn ffordd gyson;
- barnu ac amcangyfrif mewn ffordd resymol a chall;
- nodi a yw'r safonau cyfrifo a'r datganiadau o arferion cymeradwy perthnasol wedi cael eu dilyn fel a nodwyd yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac esbonio unrhyw eithriadau o bwys yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw.

Mae Prif Swyddog Cyfrifo Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi dynodi mai'r Cyfarwyddwr Cyffredinol fydd Swyddog Cyfrifo Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Mae Memorandwm Swyddogion Cyfrifo Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a gyhoeddwyd gan y Trysorlys, yn disgrifio Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr Cyffredinol fel Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys bod yn gyfrifol am sicrhau priodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'n atebol amdano, cadw cofnodion priodol a diogelu asedau'r Amgueddfa.

Datganiad ar ddatgelu gwybodaeth i archwilwyr

Cyn belled ag y bo'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Trysorydd, sef cynrychiolydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, yn ymwybodol, nid oes unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r archwiliad sy'n anhysbys i archwilwyr yr Amgueddfa, ac maent wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol i gael gafael ar unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r archwiliad er mwyn sicrhau bod archwilwyr yr Amgueddfa yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Datganiad ar Reolaeth Fewnol

1. Cwmpas y cyfrifoldeb

Mae'r Swyddog Cyfrifo a'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw system gadarn o reolaeth fewnol sy'n helpu i wireddu polisïau, nodau ac amcanion Amgueddfa Cymru a bennwyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, a hynny wrth amddiffyn y cronfeydd a'r asedau cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifo'n bersonol gyfrifol amdanynt yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd iddo wrth Reoli Arian Cyhoeddus.

2. Pwrpas y system reolaeth fewnol

Bwriad y system reolaeth fewnol yw rheoli yn hytrach na dileu unrhyw risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; nid yw'n rhoi sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd ond mae'n cynnig lefel resymol o sicrwydd. Wrth wraidd y system reolaeth fewnol mae proses barhaus i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion yr Amgueddfa, pwyso a mesur y tebygolrwydd y bydd y risgiau hyn yn digwydd a'u heffaith, a'u rheoli mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus. Bu'r system o reolaeth fewnol yn gweithredu trwy gydol y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2008, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol, ac mae'n cyd-fynd â chanllawiau'r Trysorlys. Er mwyn cynnal y system reolaeth fewnol, mae'r Amgueddfa'n gweithredu polisïau Twyll a Chwythu Chwiban sy'n cael eu hadolygu gan yr archwilwyr.

3. Y gallu i ymdrin â risg

Cyfrifoldeb y Bwrdd Rheoli (y Cyfarwyddwyr) yw rheoli risg o ddydd i ddydd, a chaiff adolygiadau ffurfiol eu cynnal gan Grŵp Rheoli Risg. Caiff yr adolygiadau hyn eu harchwilio gan is-bwyllgor Adolygu Perfformiad Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Pwyllgor Archwilio annibynnol. Drwy dynnu ar brofiad yr archwilwyr mewnol, sy'n mynychu'r adolygiadau risg, a thrwy brofiad aelodau annibynnol y Pwyllgor Archwilio, caiff y broses ei adnewyddu'n barhaus trwy gymharu â sefydliadau eraill.

4. Y Fframwaith Risgiau a Rheoli

Mae grŵp trawsadrannol penodol yn cynnal adolygiadau Rheoli Risg trylwyr, gan edrych ar y cynnydd wrth reoli risgiau mawr, gan gynnwys, wrth gwrs, diogelwch parhaus casgliadau'r Amgueddfa. Mae'r grŵp yn cadw Cofrestr Risgiau gan flaenoriaethu'r holl risgiau yn ôl eu tebygolrwydd a'u heffeithiau posibl. Mae'r grŵp yn trafod newidiadau i'r bygythiadau posibl i wireddu nodau'r Amgueddfa gyda'r holl benaethiaid adran yn gyson, a thrwy hynny'n sicrhau bod y risgiau sy'n cael eu hasesu yn cwmpasu pob agwedd o weithredoedd yr Amgueddfa. Mae clustnodi a rheoli risg hefyd yn eitem safonol ar agenda pob cyfarfod Gweithgor sy'n cynnwys y Bwrdd Rheoli a phob pennaeth adran.

Cedwir Cofrestrau Risg ar wahân ar gyfer yr is-gwmni masnachu ac ar gyfer pob project mawr a gyflawnir. Ar ddiwedd project, caiff y Gofrestr Risg ei hasesu a chaiff pob risg sy'n parhau ei drosglwyddo i brif gofrestr yr Amgueddfa.

Mae gofyn i'r grŵp ystyried risgiau posibl penodol ar gais Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Pwyllgorau Adolygu Perfformiad ac Archwilio. At hynny, mae'r Pwyllgorau Adolygu Perfformiad ac Archwilio yn adolygu'r newidiadau i'r Gofrestr Risg a materion a drafodir yng nghyfarfodydd chwarterol y grŵp, yn ogystal â gweithredoedd lliniaru a gymerir yn erbyn y risgiau mwyaf.

Mae aelodau'r Grŵp Rheoli Risg yn cynnwys yr archwilydd mewnol er mwyn trafod materion sy'n codi pryder mewn cyrff eraill. Mae cynrychiolaeth yr adrannau'n cael ei adolygu'n gyson er mwyn sicrhau bod pob risg posibl yn cael ei drafod.

Mae bygythiadau i ddiogelwch asedau'r Amgueddfa yn risg sylfaenol sy'n gofyn am weithredoedd lliniaru ac sy'n cael eu hadolygu'n gyson gan archwilwyr mewnol a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr. Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2008, adolygodd yr Amgueddfa, drwy'r Grŵp Rheoli Risg, y risg

a'r gweithredoedd lliniaru o ran diogelwch a chyfrinachedd data personol a data arall. Cadarnhawyd bod rheolaeth briodol, a chafwyd adroddiadau ar hyn yng nghyfarfodydd y grŵp.

Mae'r Polisi a'r Canllawiau Rheoli Risg yn pennu'r fframwaith, y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau rheoli risg, ynghyd â chanllawiau ar adnabod, asesu, monitro a rheoli risg. Cynhwysir archwiliad o drefn a gweithrediad y broses Rheoli Risg yn rhaglen dreigl yr archwilwyr mewnol, a chawsant eu hadolygu yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2008. Ni chododd argymhellion o'r adolygiad hwnnw, a daeth yr archwilwyr mewnol i'r casgliad bod "y fframwaith reoli sydd wedi ei nodi ac sydd ar waith ar hyn o bryd, yn rhoi sicrwydd sylweddol bod y peryglon i gyflawni amcanion y sefydliad yn y maes hwn yn cael eu rheoli'n ddigonol".

5. Adolygiad o effeithiolrwydd

Y Swyddog Cyfrifo sy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae gwaith yr archwilwyr mewnol a'r Bwrdd Rheoli – sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli fewnol – a sylwadau archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill, yn bwydo'r gwaith o adolygu effeithiolrwydd y system rheoli fewnol. Mae'r Ymddiriedolwyr a'r Pwyllgor Archwilio wedi rhoi gwybod i'r Swyddog Cyfrifo am oblygiadau canlyniad ei adolygiad o effeithiolrwydd y system rheoli fewnol, ac mae cynllun ar y gweill i fynd i'r afael ag unrhyw wendidau ac i sicrhau gwelliannau parhaus i'r system.

Mae'r Amgueddfa wedi sefydlu'r prosesau canlynol i ategu'r fframwaith rheoli risgiau er mwyn cynnal system effeithiol o reolaeth fewnol:

- trefniadau gweinyddu a rheoliadau ariannol trylwyr, gan gynnwys didoli dyletswyddau a gwahanol lefelau o awdurdod;
- systemau cyllidebu cynhwysfawr â chyllideb flynyddol a gymeradwyir gan yr Ymddiriedolwyr ac a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd gan benaethiaid adran, y Cyfarwyddwyr a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, ar ffurf adroddiadau ariannol chwarterol sy'n disgrifio perfformiad ariannol yn erbyn y rhagolygon;
- pennu targedau i fesur perfformiad ariannol a pherfformiad arall o fewn y Cynllun Gweithredol, a monitro'r cynnydd yng nghyfarfodydd chwarterol y Pwyllgor Adolygu Perfformiad;
- canllawiau clir ar reoli a monitro buddsoddiadau cyfalaf;
- adroddiadau cyson gan yr archwilwyr mewnol yn ôl safonau a bennir yn Llawlyfr Archwilio Mewnol y Llywodraeth, sy'n cynnwys barn annibynnol yr Archwilydd Mewnol ar ba mor ddigonol ac effeithiol yw'r system reolaeth fewnol ac yn cynnig argymhellion ar gyfer gwella.

Un o gydrannau allweddol adolygiad yr Amgueddfa o effeithiolrwydd systemau rheoli mewnol yw'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys Ymddiriedolwyr a hyd at bedwar o aelodau annibynnol (y mae un ohonynt yn gweithredu fel Cadeirydd fel rheol). Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bob chwarter ac mae cofnodion y cyfarfod, ac adroddiad y Cadeirydd yn cael eu hystyried gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Mae'r cyfarfodydd yn derbyn adroddiadau gan yr archwilwyr mewnol ac allanol ac yn canlyn yr holl bwyntiau gweithredu sy'n codi. Mae Cyfarwyddwyr allweddol yn mynychu'r cyfarfodydd fel y bo'n briodol i'r agenda, ac mae'r Pwyllgor yn cyfarfod â'r archwilwyr yn flynyddol heb y Cyfarwyddwyr ac fel arall. Mae cylch gorchwyl bras y Pwyllgor yn cynnwys pob agwedd ar risg, rheolaeth a llywodraethu corfforaethol, gan gynnwys adroddiadau rheoli risg.

Michael Houlihan
Swyddog Cyfrifo a Chyfarwyddwr Cyffredinol
Cymeradwywyd a llofnodwyd ar
23 Gorffennaf 2008

J. Peter W. Morgan
Trysorydd, ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
Cymeradwywyd a llofnodwyd ar
23 Gorffennaf 2008

AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU

TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Rwy'n tystio fy mod i wedi archwilio datganiadau ariannol Amgueddfa Genedlaethol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2008 o dan adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen Gyfunol, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau perthnasol. Paratowyd y datganiadau ariannol o dan y polisïau cyfrifo a ddisgrifir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Taliadau a ddisgrifir yn yr adroddiad fel un sydd wedi cael ei archwilio.

Cyfrifoldebau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, y Swyddog Cyfrifo a'r Archwilydd

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, fel y Swyddog Cyfrifo, sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Ariannol a'r Datganiadau Ariannol yn unol ag Adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed odani, ac am sicrhau cysondeb o ran y trafodion ariannol. Disgrifir y cyfrifoldebau hyn yn Natganiad Cyfrifoldebau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifo.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r darn o'r Adroddiad ar Daliadau sydd i'w archwilio yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddio perthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ar gyfer y DU ac Iwerddon).

Rwy'n adrodd fy marn ynghylch p'run a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac a gawsant eu paratoi mewn ffordd briodol yn unol â Deddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 a'r cyfarwyddyd a wnaed gan Weinidogion Cymru yn ôl y gofynion hynny. Rwy'n adrodd fy marn o ran a yw'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Ariannol yn cyd-fynd â'r datganiadau ariannol. Rwy'n adrodd hefyd a gafodd y gwariant, yr incwm a'r adnoddau a ariannwyd drwy gymhorthdal grant, ym mhob modd perthnasol, eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Rwyf hefyd yn adrodd os nad yw Amgueddfa Genedlaethol Cymru wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol, neu os na chefais yr holl wybodaeth ac esboniadau angenrheidiol ar gyfer fy archwiliad, neu os na chafodd gwybodaeth benodol a nodwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi, ynglŷn â thaliadau neu drafodion eraill, ei datgelu.

Rwy'n ystyried a yw'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol yn dangos bod Amgueddfa Genedlaethol Cymru wedi cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi, ac yn adrodd os nad yw'n cydymffurfio. Nid oes gofyn i mi ystyried a yw'r Datganiad yn cwmpasu'r holl risgiau a rheolaethau, na mynegi barn am effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu corfforaethol yr Amgueddfa na'i threfniadau risg a rheoli.

Rwyf hefyd yn darllen y wybodaeth arall sydd yn yr Adroddiad Ariannol, gan ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Rwy'n ystyried y goblygiadau o ran yr adroddiad os caf wybod am unrhyw gamddatganiad sy'n dod i'r amlwg neu anghysonderau materol yn y datganiadau ariannol. Nid yw fy nghyfrifoldebau yn ymestyn i gwmpasu unrhyw wybodaeth arall.

Sail y Farn

Cyflawnais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ar gyfer y DU ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae'n cynnwys archwiliad, ar sail prawf, o'r dystiolaeth sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol

a'r darn o'r Adroddiad ar Daliadau sy'n cael ei archwilio. Mae'n cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau sylweddol y mae'r Cyngor a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn eu gwneud wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifo sy'n berthnasol i sefyllfa Amgueddfa Genedlaethol Cymru, yn cael eu harfer mewn ffordd gyson ac yn cael eu datgelu mewn digon o fanylder.

Cynlluniais a chyflawnais fy archwiliad er mwyn casglu'r holl wybodaeth ac esboniadau oedd eu hangen, yn fy marn i, er mwyn rhoi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol a'r darn o'r Adroddiad ar Daliadau sy'n cael ei archwilio, yn rhydd o gamfynegiant materol; boed drwy dwyll neu gamgymeriad, a bod y gwariant, yr incwm a'r adnoddau a ariannwyd trwy gymhorthdal grant wedi cael eu defnyddio at y dibenion oedd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn golwg a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth ffurfio fy marn, rwyf hefyd wedi gwerthuso'n gyffredinol addasrwydd y dull o gyflwyno'r wybodaeth yn y datganiadau ariannol a'r darn o'r Adroddiad ar Daliadau sydd angen ei archwilio.

Y Farn

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr Amgueddfa Genedlaethol Cymru a'r grŵp ar 31 Mawrth 2008, o'r adnoddau a ddaeth i mewn a'u defnydd, a llif arian y grŵp ar gyfer y flwyddyn honno, yn unol â Deddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 a'r cyfarwyddyd a wnaed odani gan Weinidogion Cymru;
- paratowyd y datganiadau ariannol a'r darn o'r Adroddiad Taliadau sy'n cael ei archwilio yn unol â Deddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 a'r cyfarwyddyd a wnaed odani gan Weinidogion Cymru; ac
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Ariannol yn cyd-fynd â'r datganiadau ariannol.

Barn ar Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd faterol, mae'r gwariant, yr incwm a'r adnoddau a ariannwyd drwy gymhorthdal grant wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Adroddiad

Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w cyflwyno ar y datganiadau ariannol hyn.

Jeremy Colman
Archwilydd Cyffredinol Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Dyddiad: 1 Awst 2008

DATGANIAD CYFUNOL O WEITHGAREDDAU ARIANNOL Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2008

		Cronfeydd cyhoeddus		Cronfeydd preifat		2007-08	2006-07
	Nodiadau	Cyfyngedig £'000	Digyfyngiad £'000	Cyfyngedig £'000	Digyfyngiad £'000	**Cyfanswm £'000**	Cyfanswm £'000
ADNODDAU I MEWN							
Gweithgareddau codi arian:							
Incwm o fuddsoddiadau		0	0	62	10	**72**	68
Incwm o'r is-gwmni masnachol	2	0	2,579	0	0	**2,579**	2,488
Incwm o godi arian		0	0	329	33	**362**	214
		0	**2,579**	**391**	**43**	**3,013**	2,770
Gweithgareddau datblygu elusennol:							
Grantiau	3	3,689	21,480	0	0	**25,169**	25,101
Rhoddion a chymynroddion	4	760	0	164	71	**995**	522
Incwm arall	5	53	1,273	126	4	**1,456**	1,292
		4,502	**22,753**	**290**	**75**	**27,620**	26,915
CYFANSWM YR ADNODDAU I MEWN		**4,502**	**25,332**	**681**	**118**	**30,633**	29,685
ADNODDAU A WARIWYD	6&7						
Costau creu incwm:							
Costau'r is-gwmni masnachol		0	2,271	0	0	**2,271**	2,233
Costau codi arian		0	465	0	0	**465**	564
		0	**2,736**	**0**	**0**	**2,736**	2,797
Costau gweithgareddau elusennol:							
Dysgu a Rhaglennu		115	2,755	83	0	**2,953**	2,764
Casgliadau ac Ymchwil		1,004	7,394	98	1	**8,497**	8,300
Gweithredu'r Amgueddfeydd		568	11,553	77	27	**12,225**	11,808
		1,687	**21,702**	**258**	**28**	**23,675**	22,872
Costau llywodraethu		0	672	0	0	**672**	633
Costau ariannu pensiynau	16	0	(281)	0	0	**(281)**	394
CYFANSWM YR ADNODDAU A WARIWYD		**1,687**	**24,829**	**258**	**28**	**26,802**	26,696
CYFRAN O'R FENTER AR Y CYD	8	**(126)**	**0**	**0**	**0**	**(126)**	(266)
CYFANSWM YR ADNODDAU I MEWN CYN COSTAU ENWOL		**2,689**	**503**	**423**	**90**	**3,705**	2,723
Cost enwol cyfalaf		(3,678)	397	0	0	**(3,281)**	(3,076)
ADNODDAU NET I MEWN/(ALLAN) CYN TROSGLWYDDIADAU		**(989)**	**900**	**423**	**90**	**424**	(353)
Gwyrdroi costau enwol cyfalaf		3,678	(397)	0	0	**3,281**	3,076
ADNODDAU NET I MEWN AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL		**2,689**	**503**	**423**	**90**	**3,705**	2,723
Enillion heb eu gwireddu wrth adbrisio asedau sefydlog at ddefnydd elusennol	9	5,532	16	79	23	**5,650**	2,932
Enillion a wireddwyd/na wireddwyd/(colledion) wrth adbrisio buddsoddiadau ar y farchnaad	11	0	0	(173)	(27)	**(200)**	83
Enillion/(colledion) actwariaidd ar y cynllun pensiwn â buddion penodedig	16	0	1,980	0	0	**1,980**	(4,347)
NEWID NET MEWN CRONFEYDD YN YSTOD Y FLWYDDYN ARIANNOL		**8,221**	**2,499**	**329**	**86**	**11,135**	1,391
BALANS A DDYGWYD YMLAEN - 1 EBRILL 2007	17	**101,068**	**(12,605)**	**3,785**	**423**	**92,671**	91,280
BALANS A GARIWYD YMLAEN - 31 MAWRTH 2008	17	**109,289**	**(10,106)**	**4,114**	**509**	**103,806**	92,671

Mae'r SOFA uchod yn cynnwys yr holl enillion a cholledion cydnabyddedig. Mae'r holl weithgareddau'n parhau.
Cyfanswm y cynnydd net heb ei gyfuno mewn cronfeydd a gofnodwyd yn Natganiad Gweithgareddau Ariannol yr Amgueddfa yn 2007-08 oedd £11,139,000 (cynnydd o £1,382,000 ers 2006-07).
Mae'r nodiadau ar dudalennau 21 i 35 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

MANTOLEN GYFUNOL AR 31 MAWRTH 2008

	Nodiadau	Amgueddfa 2008 £'000	Amgueddfa 2007 £'000	Cyfunol 2008 £'000	Cyfunol 2007 £'000
ASEDAU SEFYDLOG					
Asedau diriaethol	9	**85,380**	77,610	**85,394**	77,628
Adnoddau treftadaeth	10	**12,642**	11,658	**12,642**	11,658
Cyfran o'r fenter ar y cyd:	8				
Cyfran o'r asedau gros		**13,308**	13,513	**13,308**	13,513
Cyfran o'r rhwymedigaethau gros		**(50)**	(129)	**(50)**	(129)
		13,258	13,384	**13,258**	13,384
Buddsoddiadau	11	**1,931**	2,133	**1,931**	2,133
		113,211	104,785	**113,225**	104,803
ASEDAU CYFOES					
Stoc	12	**112**	137	**481**	495
Dyledwyr i dalu cyn pen blwyddyn	13	**1,582**	1,899	**980**	1,453
Dyledwyr i dalu mewn dros flwyddyn	13	**1**	39	**1**	39
Arian yn y banc ac arian parod		**1,351**	852	**1,696**	1,048
		3,046	2,927	**3,158**	3,035
CREDYDWYR					
Symiau sy'n daladwy cyn pen blwyddyn	14	**(760)**	(1,066)	**(822)**	(1,124)
ASEDAU NET CYFOES		**2,286**	1,861	**2,336**	1,911
CYFANSWM ASEDAU LLAI'R RHWYMEDIGAETHAU CYFOES		**115,497**	106,646	**115,561**	106,714
CREDYDWYR					
Symiau sy'n ddyledus mewn dros flwyddyn	15	**(1)**	(42)	**(1)**	(42)
ASEDAU NET AC EITHRIO RHWYMEDIGAETHAU'R CYNLLUN PENSIWN		**115,496**	106,604	**115,560**	106,672
Rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn â buddion diffiniedig	16	**(11,754)**	(14,001)	**(11,754)**	(14,001)
ASEDAU NET GAN GYNNWYS RHWYMEDIGAETHAU'R CYNLLUN PENSIWN		**103,742**	92,603	**103,806**	92,671
CRONFEYDD	17				
Cronfeydd cyhoeddus cyfyngedig		**109,289**	101,068	**109,289**	101,068
Cronfeydd cyhoeddus digyfyngiad		**1,584**	1,328	**1,648**	1,396
Cronfeydd pensiwn		**(11,754)**	(14,001)	**(11,754)**	(14,001)
Cyfanswm y cronfeydd cyhoeddus digyfyngiad		**(10,170)**	(12,673)	**(10,106)**	(12,605)
Cronfeydd preifat cyfyngedig		**4,114**	3,785	**4,114**	3,785
Cronfeydd preifat digyfyngiad		**509**	423	**509**	423
		103,742	92,603	**103,806**	92,671

Llofnodwyd ar ran yr Ymddiriedolwyr gan

Michael Houlihan
Swyddog Cyfrifo a Chyfarwyddwr Cyffredinol
Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 23 Gorffennaf 2008

J. Peter W. Morgan
Trysorydd, ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 23 Gorffennaf 2008

Mae'r nodiadau ar dudalennau 21 i 35 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

LLIF ARIAN CYFUNOL AR GYFER Y FLWYDDYN DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2008

	Nodiadau	Amgueddfa 2007-08 £'000	Amgueddfa 2006-07 £'000	Cyfunol 2007-08 £'000	Cyfunol 2006-07 £'000
Llif arian net i mewn o weithgareddau gweithredol	18	**4,536**	4,365	**4,685**	4,278
Gwariant cyfalaf a buddsoddiadau ariannol	19	**(4,037)**	(4,133)	**(4,037)**	(4,153)
Cynnydd mewn arian parod	20	**499**	232	**648**	125

Mae'r nodiadau ar dudalennau 21 i 35 yn rhan o'r cyfrifon hyn

Nodiadau ar y Cyfrifon ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2008

1. Polisïau cyfrifo

1.1 Y Sail Cyfrifo
Paratowyd y Cyfrifon o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i gynnwys adbrisiad o'r asedau sefydlog diriaethol o ran eu gwerth i'r Amgueddfa. Fe'u paratowyd yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru gyda chaniatâd y Trysorlys. Heb gyfyngu ar y wybodaeth a roddir, mae'r Cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifo a datgelu'r Datganiad o Arferion a Argymhellir (SORP 2005), Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau a gyhoeddwyd gan Gomisiynwyr Elusennau Cymru a Lloegr, a'r datganiadau cyfrifo a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo, lle bo'r gofynion hynny'n briodol. Mae'r Trysorlys wedi cadarnhau y gallai'r eithriadau i'r SORP Elusennau fod yn berthnasol o ran yr angen am ddatgelu cost hanesyddol asedau diriaethol.

1.2 Trafodion y Fenter ar y Cyd
Mae'r Amgueddfa a Chyngor Dinas a Sir Abertawe yn bartneriaid cyfartal yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe (AGGA) Cyf, cwmni cyfyngedig dan warant heb gyfran cyfalaf. Cynhwysir canlyniadau'r fenter ar y cyd yn y datganiadau ariannol ac fe'u cyfrifwyd gan ddefnyddio'r dull ecwiti gros.

1.3 Trafodion yr Is-gwmni
Mae'r Amgueddfa'n gweithredu is-gwmni masnachu sy'n llwyr eiddo iddi o'r enw Mentrau Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru (Mentrau AOCC) Cyf. Cynhwysir canlyniadau masnachu'r cwmni yn y datganiadau ariannol cyfunol gan ddefnyddio'r dull 'fesul llinell'. Cafwyd barn archwilio ddiamod ar gyfrifon Mentrau AOCC Cyf. ar gyfer y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2008. Gellir cael copi o'r cyfrifon llawn o Brif Swyddfa'r Amgueddfa sef: Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP.

1.4 Adnoddau i Mewn
Caiff yr holl incwm ei gydnabod yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol os bodlonwyd yr amodau ar gyfer ei dderbyn. Caiff unrhyw grantiau eu credydu i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Caiff incwm ar gyfer gwasanaethau ei gredydu wrth ddarparu'r gwasanaeth. Rhoddir cyfrif am roddion a chymynroddion os bodlonwyd yr amodau ar gyfer eu derbyn.

1.5 Adnoddau a Wariwyd
Caiff gwariant ei ddyrannu ar draws y penawdau gwariant. Caiff ei ddyrannu fel y bo'n briodol, yn ôl dyraniad uniongyrchol a dosraniad anuniongyrchol ar gyfer costau cynnal.

1.6 Asedau Sefydlog Diriaethol ac Asedau Treftadaeth
Caiff peiriannau, offer, cyfarpar a dyfeisiau eu prisio ar sail cost adnewyddu ar ôl dibrisiant. Caiff eiddo ar brydles a rhydd-ddaliad ei brisio ar sail gwerth economaidd eu defnydd neu gost eu hadnewyddu ar ôl dibrisiant fel y bo'n briodol. Caiff unrhyw waith cynnal a chadw bob dydd mewn perthynas â'r eiddo hwn ei ddileu yn ystod blwyddyn cyflawni'r gwaith.

Diffinnir asedau treftadaeth fel asedau o bwys hanesyddol, celfyddydol neu wyddonol sy'n cael eu cadw at ddibenion datblygu amcanion cadwedigaeth, cadwraeth ac addysgiadol elusennau, a chyfrannu drwy fynediad cyhoeddus at ddiwylliant ac addysg y genedl ar raddfa genedlaethol neu leol. Mae'r asedau hyn wrth galon y gwaith o gyflawni amcanion yr Amgueddfa ac yn cynnwys tir, adeiladau, arddangosion a chreiriau. Ers 1 Ebrill 2001, mae'r asedau treftadaeth a brynwyd drwy grant sbesimenau neu a gyflwynwyd i'r Amgueddfa wedi cael eu cyfalafu ar sail cost hanesyddol. Yn unol â chyfarwyddyd cyfrifon y Trysorlys, nid yw'r asedau a ddaeth i feddiant cyn 1 Ebrill 2001 wedi cael eu cyfalafu, ac ym marn yr Ymddiriedolwyr mae cost prisio'r rhain yn rhwystr.

Ni chaiff eitemau cyfalaf â chost o lai na £5,000 eu cyfalafu. Caiff asedau eu hadbrisio'n broffesiynol bob 5 mlynedd ac yn y cyfamser, caiff unrhyw asedau eu hadbrisio gan ddefnyddio mynegeion (ac eithrio adnoddau TG am nad oes mynegai ar eu cyfer) yn ogystal ag adolygiad blynyddol y rheolwyr o ddiffygion.

1.7 Dibrisiant
Caiff dibrisiant ei godi ar sail asedau sefydlog diriaethol (ac eithrio asedau tir ar rydd-ddaliad ac asedau treftadaeth). Mae'r prif gyfraddau, gan ddefnyddio'r dull llinell syth, fel a ganlyn:

Bydd eiddo ar rydd-ddaliad ac eiddo ar brydles hir yn dibrisio yn ystod ei oes ddefnyddiol sef rhwng 50 a 125 mlynedd.

Yn ôl SORP Elusennau 2005, nid yw asedau treftadaeth yn dibrisio. Barn yr Ymddiriedolwyr yw bod gwerth gweddillol gweithiau celf yn uwch na'r gwerth cadw ac mae oes ddefnyddiol ddisgwyliedig asedau treftadaeth eraill mor hir nad yw dibrisiant yn faterol.

Bydd peiriannau, offer, cyfarpar a dyfeisiau'n dibrisio dros 5-10 mlynedd. Mewn achosion penodol, er enghraifft yn achos eitemau sy'n destun newidiadau technegol neu lle bo ffactor darfodol uchel, defnyddir cyfnod o 3 blynedd. Mae'n bosibl y bydd gan rai eitemau penodol eraill gyfnod dibrisio hirach.

Codir asedau ar brydles ar sail llinell syth dros dymor y brydles.

1.8 Cronfeydd
Mae Cronfeydd Cyhoeddus a Phreifat Digyfyngiad ar gael i'w defnyddio, yn ôl disgresiwn yr Ymddiriedolwyr, i hyrwyddo amcanion cyffredinol yr Amgueddfa.

Y Cronfeydd Cyfyngedig Cyhoeddus yw'r Grantiau Cyfalaf a'r Grantiau Prynu Sbesimenau sy'n dod oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff eraill y Llywodraeth.

Cronfeydd Cyfyngedig Preifat yw'r cronfeydd sy'n dibynnu ar gyfyngiadau penodol a bennir gan gyfranwyr. Rhaid i'r cronfeydd hyn gyd-fynd â'u gweithredoedd sefydlu.

1.9 Stoc
Mae'r Amgueddfa'n cadw stoc o gyhoeddiadau ac eitemau eraill i'w gwerthu yn ei siopau. Mae'r rhain yn cael eu prisio ar isafswm y gost a'r gwerth net y maent yn ei dynnu.

1.10 Buddsoddiadau
Dangosir buddsoddiadau yn ôl eu gwerth ar y farchnad. Polisi'r Amgueddfa yw cadw cofnodion prisio cyfoes, felly pan fo buddsoddiadau yn cael eu gwerthu, nid oes enillion na cholledion mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol. O ganlyniad, nid yw'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn gwahaniaethu rhwng addasiadau prisio yn ymwneud â gwerthiant a'r rhai yn ymwneud â daliannau parhaus am eu bod yn cael eu trin fel newidiadau yng ngwerth y portffolio buddsoddi drwy gydol y flwyddyn.

1.11 Gwaith ymchwil a Datblygu
Caiff gwariant ar waith ymchwil a datblygu ei osod yn erbyn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar gyfer y flwyddyn o dan sylw.

1.12 Trethiant
Mae Cyllid y Wlad wedi rhoi statws elusen i'r Amgueddfa, ond codir Treth Gorfforaeth ar Fentrau AOCC Cyf.

1.13 Pensiynau
Caiff cyfraniadau at Gynllun Pensiwn Amgueddfa Genedlaethol Cymru eu codi yn erbyn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol er mwyn gwasgaru cost pensiynau dros fywyd gwaith y gweithwyr. Cyfrifir y gost yn ôl y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar sail y costau gwasanaethu fel y'u cyfrifir gan actwari'r cynllun.

1.14 Cost Cyfalaf
Mae Cyfrifon y Llywodraeth yn gofyn am gynnwys cost dybiannol cyfalaf, a gyfrifir drwy osod canran o 3.5% ar y cyfalaf cyhoeddus cyfartalog. Mae cost taliadau cyfalaf yn mesur adenillion priodol ar ecwiti'r trethdalwyr.

1.15 Deilliannau
Nid oes unrhyw fenthyciadau gan yr Amgueddfa ac mae'n dibynnu'n bennaf ar grantiau'r Llywodraeth o ran ei anghenion arian parod. Mae'r holl asedau a rhwymedigaethau materol wedi eu nodi mewn sterling, ac nid ydynt yn agored i risgiau o ran cyfraddau llog neu arian treigl.

2. Yr Is-gwmni Masnachu

Mae gan yr Amgueddfa is-gwmni masnachu sy'n llwyr eiddo iddi. Mae'r is-gwmni'n gwmni corfforedig yn y DU. Prif waith Mentrau AOCC Cyf. yw gwerthu nwyddau yn holl siopau'r Amgueddfa, arlwyaeth, parcio, trwyddedu delweddau, llogi corfforaethol, archebion post ac elw o werthu arddangosfeydd a hawliau ffilmio. Mae Mentrau AOCC Cyf. yn dychwelyd ei elw i'r Amgueddfa ar ffurf rhoddion cymorth. Ceir crynodeb o'u canlyniadau masnachu isod.

	2007-08 £ '000	2006-07 Ailddatgan £ '000
Trosiant	**2,433**	2,350
Costau gwerthu	**(1,958)**	(1,952)
Elw gros	**475**	398
Costau gweinyddol	**(290)**	(262)
Incwm gweithredol arall	**111**	115
Elw ar weithgareddau arferol cyn llog	**296**	251
Llog derbyniadwy	**35**	23
Llog taladwy	**(23)**	(19)
Elw ar weithgareddau arferol cyn trethi	**308**	255
Trethi ar elw gweithgareddau arferol	**0**	0
Elw ar gyfer y flwyddyn ariannol	**308**	255
Cymorth rhoddion sy'n daladwy i'r Amgueddfa	**(312)**	(246)
Elw a gedwir ar gyfer y flwyddyn	**(4)**	9

Mae'r ffigurau cymharol ar gyfer llynedd wedi'u hailddatgan. Serch hynny, nid oes newid i ffigwr elw cyffredinol llynedd.

3. Grantiau Derbyniadwy

	Cyhoeddus Cyfyngedig £'000	Cyhoeddus Digyfyngiad £'000	**2007-08 £'000**	2006-07 £'000
Cymhorthdal Refeniw	0	21,301	**21,301**	20,519
Cymhorthdal Prynu Sbesimenau	1,075	0	**1,075**	1,075
Cymhorthdal Cyfalaf	2,325	0	**2,325**	3,259
Grantiau o gyrff eraill y Llywodraeth	289	179	**468**	248
	3,689	**21,480**	**25,169**	25,101

Cafodd yr Amgueddfa gyfanswm o £24,701,000 mewn grantiau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (£24,853,000 yn 2006-07). Mae hyn yn cynnwys Cymhorthdal Refeniw, Prynu Sbesimenau a Chyfalaf.

Mae'r grantiau a gafwyd gan gyrff eraill y Llywodraeth yn cynnwys: grant o £162,000 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri (£55,000 yn 2006-07); grant o £5,000 gan yr Undeb Ewropeaidd (£135,000 yn 2006/07) a grant arall o £301,000 (£58,000 yn 2006/07).

4. Rhoddion a Chymynroddion

	Cronfeydd Cyhoeddus Cyfyngedig £'000	Digyfyngiad £'000	Cronfeydd Preifat Cyfyngedig £'000	Digyfyngiad £'000	**2007-08 £'000**	2006-07 £'000
Asedau a gyflwynwyd	190	0	28	0	**218**	105
Rhoddion eraill	570	0	136	71	**777**	417
	760	**0**	**164**	**71**	**995**	522

5. Incwm Arall

	Cronfeydd Cyhoeddus		Cronfeydd Preifat			
	Cyfyngedig £'000	Digyfyngiad £'000	Cyfyngedig £'000	Digyfyngiad £'000	**2007-08 £'000**	2006-07 £'000
Dysgu a Rhaglennu	0	124	0	0	**124**	142
Casgliadau ac Ymchwil	5	195	0	0	**200**	332
Gweithredu'r Amgueddfeydd	48	821	0	0	**869**	688
Cynhaliaeth	0	133	126	4	**263**	130
	53	**1,273**	**126**	**4**	**1,456**	1,292

6. Cyfanswm yr Adnoddau a Wariwyd

(a) Amgueddfa

	Costau Union-gyrchol	Di-brisiant	Costau cynnal					
			Marchnata, y wasg a CC	*Cyllid a Gweinyddiaeth*	*TGCh*	*Adnoddau Dynol*	**2007-08 £'000**	2006-07 £'000
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000		
Costau creu incwm								
Costau codi arian	373	0	43	26	15	8	**465**	564
	373	0	43	26	15	8	**465**	564
Costau gweithgareddau elusennol								
Dysgu a Rhaglennu	2,619	88	70	29	94	53	**2,953**	2,764
Casgliadau ac Ymchwil	7,500	416	77	114	248	142	**8,497**	8,300
Gweithredu'r Amgueddfeydd	11,137	430	231	166	156	275	**12,395**	11,994
	21,256	934	378	309	498	470	**23,845**	23,058
Costau Llywodraethu	524	0	122	6	13	7	**672**	633
Costau Ariannu Pensiynau	(281)	0	0	0	0	0	**(281)**	394
Cyfanswm a Wariwyd	**21,872**	**934**	**543**	**341**	**526**	**485**	**24,701**	24,649

(b) Cyfunol

	Costau Union-gyrchol	Di-brisiant	Costau cynnal					
			Marchnata, y wasg a CC	*Cyllid a Gweinyddiaeth*	*TGCh*	*Adnoddau Dynol*	**2007-08 £'000**	2006-07 £'000
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000		
Costau Creu incwm								
Costau'r is-gwmni masnachu	2,267	4	0	0	0	0	**2,271**	2,233
Costau codi arian	373	0	43	26	15	8	**465**	564
	2,640	4	43	26	15	8	**2,736**	2,797
Costau gweithgareddau elusennol								
Dysgu a Rhaglennu	2,619	88	70	29	94	53	**2,953**	2,764
Casgliadau ac Ymchwil	7,500	416	77	114	248	142	**8,497**	8,300
Gweithredu'r Amgueddfeydd	10,967	430	231	166	156	275	**12,225**	11,808
	21,086	934	378	309	498	470	**23,675**	22,872
Cost Llywodraethu	524	0	122	6	13	7	**672**	633
Cost Ariannu Pensiynau	(281)	0	0	0	0	0	**(281)**	394
Cyfanswm a Wariwyd	**23,969**	**938**	**543**	**341**	**526**	**485**	**26,802**	26,696

Cynhwysir £41,575 (£42,875 yn 2006-07) yn yr adnoddau a wariwyd i dalu'r archwilwyr allanol, £36,800 (£35,400 yn 2006-07) ar gyfer y ffi archwilio, a £4,775 (£7,475 yn 2006-07) am waith arall.

Cynhwysir £25,000 (£290,000 yn 2006-07) yn yr adnoddau a wariwyd mewn perthynas â gwariant yn ymwneud â grant yr UE.

Mae'r sail ar gyfer dyrannu costau cynnal fel a ganlyn: caiff costau Marchnata, y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus eu dyrannu yn ôl canran amser; caiff costau Cyllid a Gweinyddiaeth eu dyrannu yn ôl cyfanswm incwm a gwariant; caiff costau TGCh eu dyrannu yn ôl y nifer o gyfrifiaduron ac Adnoddau Dynol yn ôl y nifer o weithwyr cyfateb i amser llawn.

Mae'r costau llywodraethu'n cynnwys costau cynllunio strategol, y Bwrdd a'r pwyllgorau, cysylltiadau â'r Cynulliad, archwilio mewnol ac allanol, rheoli risg a'r adroddiad a'r cyfrifon statudol.

7. Costau Staffio

(a) Costau Staffio yn ystod y flwyddyn:

	Cyfunol	
	2007-08	2006-07
	£ '000	£ '000
Cyflogau	**14,889**	14,446
Costau Nawdd Cymdeithasol	**1,078**	1,069
Costau pensiwn cyfredol	**2,901**	2,383
Costau diswyddo	**1**	25
	18,869	17,923
Costau ariannu pensiynau	**(281)**	394
	18,588	18,317

Mae'r costau staffio'n cynnwys £1,007,000 (£950,000 yn 2006-07) ar gyfer yr is-gwmni masnachu.

Mae'r costau gweithredu'n cynnwys £24,000 (£39,000 yn 2006-07) ar gyfer staff asiantaeth.

(b) Nifer gyfartalog y staff cyfateb ag amser llawn yn fisol:

	Staff Parhaol	Staff Arall	**Nifer 2007-08**	Nifer 2006-07
Is-gwmni masnachu	31	7	**38**	45
Codi arian	6	1	**7**	7
Dysgu a Rhaglennu	47	4	**51**	54
Casgliadau ac Ymchwil	142	7	**149**	155
Gweithredu'r Amgueddfeydd	278	19	**297**	293
Cynhaliaeth	65	2	**67**	67
	569	40	**609**	621

(c) Manylion tâl a budd-daliadau pensiwn cyfarwyddwyr yr Amgueddfa:

	Cyflog 2007-08 (2006-07) £	Cynnydd go iawn o ran pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig yn 60 oed £	Pensiwn a gronnwyd yn 60 oed ar 31 Mawrth 08 a'r cyfandaliad cysylltiedig £	CETV ar 31 Mawrth 08 £	CETV ar 31 Mawrth 07 £	Cynnydd go iawn yn y CETV ar ben cyfraniadau'r aelodau £
Mr Michael Houlihan, Cyfarwyddwr Cyffredinol	98,859 (96,447)	1,170 plws 3,510 cyfan daliad	6,130 plws 18,390 cyfan daliad	155,850	107,300	38,540
Dr Eurwyn Wiliam, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol	70,919 (68,554)	1,240 plws 3,720 cyfan daliad	32,360 plws 97,080 cyfan daliad	797,410	659,500	108,590
Mr John Williams-Davies Cyfarwyddwr Sain Ffagan	69,919 (67,554)	790 plws 2,370 cyfan daliad	30,220 plws 90,660 cyfan daliad	723,100	603,300	92,680
Mr Mark Richards Cyfarwyddwr Gweithredu	69,919 (67,554)	850 plws 2,550 cyfan daliad	8,020 plws 24,060 cyfan daliad	132,090	95,900	28,350
Mr Michael Tooby, Cyfarwyddwr Dysgu a Rhaglennu	67,554 (64,884)	900 plws 2,700 cyfan daliad	20,130 plws 60,390 cyfan daliad	355,850	279,500	61,680
Mr Jonathan Sheppard, Cyfarwyddwr Cyllid	64,884 (62,214)	860 plws 2,580 cyfan daliad	10,250 plws 30,750 cyfan daliad	222,120	170,100	41,660
Mr Robin Gwyn, Cyfarwyddwr Cyfathrebu	62,214 (59,544)	810 plws 2,430 cyfan daliad	5,570 plws 16,710 cyfan daliad	91,340	63,200	22,010

Mae enillion y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cynnwys cyflog sylfaenol o £98,859 (£96,447 yn 2006-07) a bonws anghyfunol ar sail perfformiad o £6,430 (£6,270 yn 2006-07). Cafodd £Dim o fudd-dal mewn da o gymorth gyda chostau symud (£3,589 yn 2006-07).

Mae cyfarwyddwyr yr Amgueddfa i gyd yn aelodau cyffredin o gynllun pensiwn yr Amgueddfa.

Y Gwerth Trosglwyddo Cyfartal ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf budd-daliadau'r cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar unrhyw adeg benodol yn ôl asesiad yr actwari. Mae'r cynnydd go iawn yn y CETV yn adlewyrchu'r cynnydd a ariannwyd gan yr Amgueddfa i bob pwrpas. Mae'n cymryd i ystyriaeth y cynnydd yn y pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant, cyfraniadau'r gweithwyr (gan gynnwys gwerth unrhyw fudd-daliadau a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio ar y farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

(d) Aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Nid yw'r Ymddiriedolwyr yn cael unrhyw dâl. Talwyd cyfanswm o £27,000 (£21,000 yn 2006-07) mewn costau teithio, cynhaliaeth a llety i aelodau'r Bwrdd a'r pwyllgorau. Ad-dalwyd costau i gyfanswm o 13 ymddiriedolwr.

8. Cyfran o'r Fenter ar y Cyd

Mae'r Amgueddfa a Chyngor Dinas a Sir Abertawe yn bartneriaid cyfartal yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe (AGGA) Cyf. (Rhif Elusen 1090512). Prif nod AGGA Cyf. yw sefydlu amgueddfa yn Abertawe i gadw ac arddangos (inter alia) holl gasgliadau diwydiannol a morwrol Amgueddfa Cymru a Dinas a Sir Abertawe er budd y cyhoedd. Pe câi AGGA Cyf. ei ddirwyn i ben neu ei ddiddymu, mae ei erthyglau a'i memorandwm cydweithio'n nodi y caiff unrhyw eiddo sy'n eiddo i'r elusen neu sy'n cael ei breinio ynddi ei drosglwyddo i elusen neu elusennau eraill ag amcanion tebyg.

Mae cyfran yr Amgueddfa o asedau net y Fenter ar y Cyd yn cynnwys:

	Cyfanswm Net y Symudiad mewn Cronfeydd		**Cyfran Net y Symudiad mewn Cronfeydd**	
	2008	2007	**2008**	2007
	£'000	£'000	**£'000**	£'000
Adnoddau i mewn o greu incwm	**0**	0	**0**	0
Incwm o fuddsoddi	**10**	35	**5**	18
Adnoddau eraill i mewn	**1**	0	**0**	0
Cyfanswm yr adnoddau i mewn	**11**	35	**5**	18
Costau creu incwm	**0**	21	**0**	11
Gwariant ar weithgareddau elusennol	**253**	260	**126**	130
Adnoddau eraill a wariwyd	**0**	276	**0**	138
Costau llywodraethu	**9**	9	**5**	5
Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd	**262**	566	**131**	284
Newidiadau net mewn cronfeydd	**(251)**	(531)	**(126)**	(266)

	Cyfanswm yr Asedau a'r Rhwymedigaethau		**Cyfran yr Asedau a'r Rhwymedigaethau**	
	2008	2007	**2008**	2007
	£'000	£'000	**£'000**	£'000
Asedau sefydlog	**26,441**	26,408	**13,221**	13,203
Asedau cyfredol	**175**	619	**87**	310
Rhwymedigaethau cyn pen blwyddyn	**(50)**	(210)	**(25)**	(104)
Rhwymedigaethau mewn dros flwyddyn	**(49)**	(49)	**(25)**	(25)
Asedau Net	**26,517**	26,768	**13,258**	13,384
Cronfeydd				
Cronfa gyffredinol (digyfyngiad)	**26,392**	26,408	**13,196**	13,203
Cronfa gyfyngedig	**125**	360	**62**	181
	26,517	26,768	**13,258**	13,384

Ar 31 Mawrth 2008, roedd AGGA Cyf wedi contractio ar gyfer £10,743 o wariant cyfalaf oedd heb ei dynnu i lawr ar y pryd.

9. Asedau Diriaethol Sefydlog

(a) Amgueddfa

	Tir ac adeiladau rhydd-ddaliad £'000	Eiddo ar brydles £'000	Peiriannau a cherbydau £'000	Darnau gosod ac offer £'000	**Cyfanswm £'000**
Cost neu Brisiad					
Ar 1 Ebrill 2007	18,722	58,548	143	1,096	**78,509**
Ychwanegiadau yn Ystod y Flwyddyn	1,245	1,571	23	215	**3,054**
Adbrisiad	1,426	4,291	4	45	**5,766**
Ar 31 Mawrth 2008	**21,393**	**64,410**	**170**	**1,356**	**87,329**
Dibrisiant					
Ar 1 Ebrill 2007	260	474	55	110	**899**
Tâl am y Flwyddyn	279	488	30	137	**934**
Adbrisiad	38	69	1	8	**116**
Ar 31 Mawrth 2008	**577**	**1,031**	**86**	**255**	**1,949**
Llyfrwerth Net					
Ar 1 Ebrill 2007	18,462	58,074	88	986	**77,610**
Ar 31 Mawrth 2008	**20,816**	**63,379**	**84**	**1,101**	**85,380**

(b) Cyfunol

	Tir ac adeiladau rhydd-ddaliad £'000	Eiddo ar brydles £'000	Peiriannau a cherbydau £'000	Darnau gosod ac offer £'000	**Cyfanswm £'000**
Cost neu Brisiad					
Ar 1 Ebrill 2007	18,722	58,548	143	1,128	**78,541**
Ychwanegiadau yn Ystod y Flwyddyn	1,245	1,571	23	215	**3,054**
Adbrisiad	1,426	4,291	4	45	**5,766**
Ar 31 Mawrth 2008	**21,393**	**64,410**	**170**	**1,388**	**87,361**
Dibrisiant					
Ar 1 Ebrill 2007	260	474	55	124	**913**
Tâl am y Flwyddyn	279	488	30	141	**938**
Adbrisiad	38	69	1	8	**116**
Ar 31 Mawrth 2008	**577**	**1,031**	**86**	**273**	**1,967**
Llyfrwerth Net					
Ar 31 Mawrth 2007	18,462	58,074	88	1,004	77,628
Ar 31 Mawrth 2008	**20,816**	**63,379**	**84**	**1,115**	**85,394**

Cafodd asedau sefydlog diriaethol yr Amgueddfa eu prisio'n broffesiynol ar 31 Mawrth 2006 gan M. A. Lawley o'r Syrfewyr Siartredig Cooke and Arkwright, yn unol ag anghenion Safonau Prisio ac FRS15 Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Roedd gwerth bob eiddo ar sail a rhagdybiaethau ar gyfer eiddo sy'n gartref i'r perchennog: yn cael eu prisio ar Bris Defnydd Cyfredol gan gymryd y rhagdybiaeth y byddai'r eiddo yn cael ei werthu fel rhan o fusnes parhaus neu drwy ddefnyddio'r dull cost dibrisiant.

Mae llyfrwerth net yr asedau sefydlog ar bapur, sef £85,394,000 y cynnwys swm o £1,000 (Cyfanswm cost o £48,000 llai dibrisiant o £47,000) mewn perthynas â'r asedau ar brydles.

10. Asedau Treftadaeth

Mae'r Asedau Treftadaeth a gafwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

	Celf	Adeiladau Hanesyddol	Arall	**Cyfanswm**
	£'000	£'000	£'000	**£'000**
Adnewyddu Eglwys Sant Teilo	-	7	-	**7**
Pedwar llestr wedi'u haddurno gan Pablo Picasso	253	-	-	**253**
Casgliad o ffotograffau John Cornwell	-	-	30	**30**
Dau lestr saws arian Siôr III	71	-	-	**71**
Cilgant Gwyrdd Asid – Vassily Kandinsky	290	-	-	**290**
Peintiadau gan Cedric Morris	42	-	-	**42**
Croes allor eglwys	-	-	13	**13**
Persews a'r Graiae – Burne Jones	250	-	-	**250**
Carn cleddyf arian Eingl-Sacsonaidd	-	-	5	**5**
Golygfa o'r Wyddfa – J T Linnell	8	-	-	**8**
Pen Hanako – Efydd – A. Rodin	15	-	-	**15**
Cyfanswm ychwanegiadau blwyddyn	**929**	**7**	**48**	**984**
Ar 1 Ebrill 2007	5,315	5,623	720	11,658
Ar 31 Mawrth 2008	**6,244**	**5,630**	**768**	**12,642**

11. Buddsoddiadau mewn Asedau Sefydlog

	Amgueddfa		**Cyfunol**	
	2007-08	2006-07	**2007-08**	2006-07
	£'000	£'000	**£'000**	£'000
Ar 1 Ebrill 2007	**2,133**	2,055	**2,133**	2,055
Ychwanegiadau ar sail cost	**452**	79	**452**	79
Gwarediadau ar bris y farchnad	**(454)**	(84)	**(454)**	(84)
Enillion (colledion) net ar adbrisiadau	**(200)**	83	**(200)**	83
Gwerth y farchnad ar 31 Mawrth 2008	**1,931**	2,133	**1,931**	2,133

Cost hanesyddol y buddsoddiadau ar 31 Mawrth 2008 oedd £1,712,000 (£1,516,000 ar 31 Mawrth 2007). Mae'r portffolio'n cynnwys Buddsoddiadau Cyfunol (unedau buddsoddi) a awdurdodwyd gan y Bwrdd Gwarantau a Buddsoddiadau (cafodd y rhain eu prisio yn broffesiynol gan reolwyr buddsoddiadau'r Amgueddfa, (Gerrard Cyf.) ac mae'r cyfranddaliadau (a gafodd yr Amgueddfa'n gymynrodd) wedi eu rhestru ar Farchnad Stoc Llundain.

12. Stoc

	Amgueddfa		**Cyfunol**	
	2008	2007	**2008**	2007
	£'000	£'000	**£'000**	£'000
Nwyddau siop ar werth	**0**	0	**369**	358
Stoc cyhoeddiadau a gedwir ar wahân	**134**	137	**134**	137
Llai'r ddarpariaeth ar gyfer dileu stoc	**(22)**	0	**(22)**	0
	112	137	**481**	495

13. Dyledwyr

	Amgueddfa		Cyfunol	
	2008	2007	**2008**	2007
	£'000	£'000	**£'000**	£'000
Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn:				
Dyledwyr Masnachol	**224**	76	**281**	225
Swm sy'n ddyledus gan yr is-gwmni masnachol	**307**	252	**0**	0
Benthyciad sy'n ddyledus gan yr is-gwmni masnachol	**301**	301	**0**	0
Dyledwyr eraill	**565**	1,075	**496**	997
Rhagdaliadau	**185**	195	**203**	231
	1,582	1,899	**980**	1,453
Symiau sy'n ddyledus mewn dros flwyddyn:				
Dyledwyr eraill	**1**	39	**1**	39

Ymysg y dyledwyr eraill mae balans o fewn y Llywodraeth o: £42,000 (£77,000 yn 2006-07) Cynulliad Cenedlaethol Cymru; £42,000 (£244,000 yn 2006-07) Cronfa Dreftadaeth y Loteri; £32,000 (£Dim yn 2006-07) Yr Amgueddfa Brydeinig; £11,000 (£Dim yn 2006-07) Cyngor Cefn Gwlad Cymru; £315,000 (£550,000 yn 2006-07) Refeniw a Thollau ei Mawrhydi a £Dim (£11,000 yn 2006-07) English Nature, sydd oll yn cael eu diffinio fel cyrff y Llywodraeth at ddibenion Cyfrifon y Llywodraeth.

14. Credydwyr: Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn

	Amgueddfa		Cyfunol	
	2008	2007	**2008**	2007
	£'000	£'000	**£'000**	£'000
Credydwyr masnachol	**426**	475	**463**	508
Credydwyr a chroniadau eraill	**334**	591	**359**	616
	760	1,066	**822**	1,124

Ymysg y Credydwyr a chroniadau eraill mae balans o fewn y Llywodraeth gyda: Llywodraeth Cynulliad Cymru £12,000 (£Dim yn 2006-07); Adran Masnach a Diwydiant £35,000 (£Dim yn 2006-07); Cyngor Cefn Gwlad Cymru £10,000 (£Dim yn 2006-07) a Chronfa Dreftadaeth y Loteri £Dim (£48,000 yn 2006-07).

15. Credydwyr: Symiau sy'n ddyledus mewn dros flwyddyn

	Amgueddfa		Cyfunol	
	2008	2007	**2008**	2007
	£'000	£'000	**£'000**	£'000
Trefniadau Prydlesu	**1**	42	**1**	42

16. Costau Pensiwn

Mae gan yr Amgueddfa gynllun buddion diffiniedig yn y DU, sydd wedi'i warantu gan Warant y Goron a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Cyflawnwyd prisiad actwarïaidd llawn ar 31 Mawrth 2006. Cafodd ei ddiweddaru ar 31 Mawrth 2008 gan actwari annibynnol cymwys gan ddefnyddio canllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi. Dyma'r rhagdybiaethau mwyaf a ddefnyddiodd yr actwari (yn nhermau enwol):

	2008	2007	2006
Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau	**5.1%**	4.6%	4.4%
Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau a ohiriwyd	**3.6%**	3.1%	2.9%
Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau gweithredol	**3.6%**	3.1%	2.9%
Cyfradd gostyngiad	**6.1%**	4.9%	5.7%
Rhagdybiaeth o ran chwyddiant	**3.6%**	3.1%	2.9%

Roedd y gwerthusiad actwarïaidd ar 31 Mawrth 2008 ar sail y rhagdybiaethau uchod yn dangos lleihad yn y diffyg, o £14,001,000 i £11,754,000. Bu'r Amgueddfa'n cyfrannu at y Cynllun yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2008 ar gyfradd o 21.3% o'r tâl pensiynadwy.

(a) Asedau'r cynllun a'r gyfradd elw ddisgwyliedig:

	2008	**£'000**	2007	£'000	2006	£'000
Soddgyfrannau	**6.85%**	**48,774**	6.90%	49,963	6.50%	44,798
Bondiau Llog Sefydlog	**4.60%**	**1,942**	4.65%	1,796	4.25%	1,499
Stociau'r Llywodraeth ar sail mynegai	**4.60%**	**14,307**	4.65%	14,066	4.25%	12,022
Arall	**4.50%**	**172**	4.65%	147	4.00%	227
Cyfanswm gwerth yr asedau ar y farchnad		**65,195**		65,972		58,546
Gwerth actwarïaidd y dyledion		**(76,949)**		(79,973)		(68,239)
Diffyg y gellir ei adfer yn y cynllun		**(11,754)**		(14,001)		(9,693)
Asedau/(rhwymedigaethau) trethi a ohiriwyd		**0**		0		0
Rhwymedigaethau pensiwn net		**(11,754)**		(14,001)		(9,693)

(b) Dadansoddiad o'r symiau y gellir eu codi ar gostau gweithredu:

	2008 £'000	2007 £'000
Costau Gwasanaeth Cyfoes	**2,901**	2,383
Costau Gwasanaeth yn y Gorffennol	**0**	0
Cyfanswm Costau Gweithredu	**2,901**	2,383

(c) Dadansoddiad o'r elw net ar y cynllun pensiwn:

	2008 £'000	2007 £'000
Elw disgwyliedig ar asedau'r cynllun pensiwn	**4,237**	3,547
Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn	**(3,956)**	(3,941)
Elw net	**281**	(394)

(d) Dadansoddiad o'r enillion a'r colledion actwarïaidd

	2008 £'000	2007 £'000
Gwir elw llai'r elw disgwyledig ar asedau	**(6,524)**	2,486
Hanes colledion ar y rhwymedigaethau	**(191)**	(68)
Newidiadau mewn rhagdybiaethau	**8,695**	(6,765)
Colledion (enillion) actwarïaidd	**1,980**	(4,347)
Addasiad yn sgil y cyfyngiad ar wargedau	**0**	0
Colledion (enillion) net a gydnabuwyd	**1,980**	(4,347)

(e) Newidiadau yn y diffyg yn ystod y flwyddyn:

	2008 £'000	2007 £'000
Diffyg yn y cynllun ar ddechrau'r flwyddyn	**(14,001)**	(9,693)
Newid yn ystod y flwyddyn:		
Costau gwasanaeth cyfoes	**(2,901)**	(2,383)
Cyfraniadau a dalwyd	**2,887**	2,816
Cost llog net	**281**	(394)
Colledion (ennillion) actwarïaidd	**1,980**	(4,347)
Diffyg yn y cynllun ar ddiwedd y flwyddyn	**(11,754)**	(14,001)

Mae'r ffigurau uchod wedi cael eu cynnwys yn y Gyfriflen o Weithgareddau Ariannol a'r Fantolen o dan Safon Adrodd Ariannol 17 – Budd-daliadau Ymddeol.

(f) Hanes o ran enillion a cholledion

	2008	2007	2006	2005	2004
Gwahaniaeth rhwng elw disgwyliedig a'r gwir elw ar asedau'r cynllun:					
swm (£'000)	**(6,524)**	2,486	8,624	1,901	5,147
canran o asedau'r cynllun	**-10.0%**	3.8%	14.7%	4.2%	13.0%
Hanes enillion/(colledion) ar rwymedigaethau'r cynllun:					
swm (£'000)	**(191)**	(68)	0	0	2,683
canran o rwymedigaethau'r cynllun	**-0.2%**	-0.1%	0.0%	0.0%	4.8%
Enillion/(colledion) actwarïaidd:					
swm (£'000)	**1,980**	(4,347)	(286)	6,494	1,110
canran o rwymedigaethau'r cynllun	**2.6%**	-5.4%	0.0%	11.8%	2.0%

17. Datganiad o Gronfeydd

(a) Newidiadau yn y Cronfeydd

	1 Ebrill 2007 £'000	Adnoddau i mewn £'000	Adnoddau a wariwyd £'000	Newidiadau eraill o fewn y Flwyddyn £'000	**31 Mawrth 2008 £'000**
Cronfeydd Cyhoeddus					
Cyfyngedig – Cyfalaf	94,138	3,112	(963)	5,406	**101,693**
Cyfyngedig – Sbesimenau	6,930	1,390	(724)	0	**7,596**
Cyfanswm cyfyngedig	101,068	4,502	(1,687)	5,406	**109,289**
Digyfyngiad	1,396	25,332	(25,096)	16	**1,648**
Cronfa bensiynau	(14,001)	0	267	1,980	**(11,754)**
Cyfanswm digyfyngiad	(12,605)	25,332	(24,829)	1,996	**(10,106)**
Cyfanswm Cyhoeddus	**88,463**	**29,834**	**(26,516)**	**7,402**	**99,183**
Cronfeydd Preifat					
Cyfyngedig	3,785	681	(258)	(94)	**4,114**
Digyfyngiad	423	118	(28)	(4)	**509**
Cyfanswm Preifat	**4,208**	**799**	**(286)**	**(98)**	**4,623**
Cyfanswm	**92,671**	**30,633**	**(26,802)**	**7,304**	**103,806**

Cofnodwyd £1,585,000 o gronfeydd cyhoeddus digyfyngiad yng nghyfrifon anghyfunol yr Amgueddfa ei hun ar 31 Mawrth 2008, gyda swm o £63,000 wedi'i briodoli i Fentrau AOCC Cyf.

Mae'r cronfeydd cyfyngedig preifat yn cynnwys dwy gronfa falans mawr sef: y Gronfa Gelf a Chronfa Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru.

(b) Dadansoddiad o'r Asedau Net Rhwng Cronfeydd

	Cronfeydd Cyhoeddus		Cronfeydd Preifat		
	Cyfyngedig £'000	Digyfyngiad £'000	Cyfyngedig £'000	Digyfyngiad £'000	**2008 £'000**
Asedau Sefydlog	108,736	297	3,718	474	**113,225**
Asedau Cyfredol	802	1,925	396	35	**3,158**
Rhwymedigaethau Cyfredol	(249)	(573)	0	0	**(822)**
Rhwymedigaethau Tymor Hir	0	(1)	0	0	**(1)**
Asedau net (cyn y rhwymedigaethau pensiwn)	**109,289**	**1,648**	**4,114**	**509**	**115,560**
Rhwymedigaethau Pensiwn	0	(11,754)	0	0	**(11,754)**
Asedau net (ar ôl y rhwymedigaethau pensiwn)	**109,289**	**(10,106)**	**4,114**	**509**	**103,806**

18. Cysoni'r newidiadau mewn adnoddau i'r llif arian net o weithgarwch gweithredu

	Amgueddfeydd		Cyfunol	
	2007-08	2006-07	**2007-08**	2006-07
	£'000	£'000	**£'000**	£'000
Adnoddau net i mewn ar gyfer y flwyddyn	**3,709**	2,714	**3,705**	2,723
Cyfran o'r fenter ar y cyd	**126**	266	**126**	266
Asedau a gafwyd yn rhodd	**(213)**	(105)	**(213)**	(105)
Dibrisiant	**934**	838	**938**	840
(Cynnydd)/lleihad mewn stociau	**25**	(31)	**14**	(10)
(Cynnydd)/lleihad mewn dyledwyr	**314**	914	**424**	809
(Cynnydd)/lleihad mewn credydwyr	**(92)**	(192)	**(42)**	(206)
Costau ariannu pensiynau cyfredol FRS17	**(267)**	(39)	**(267)**	(39)
Arian net i mewn o weithgarwch gweithredol	**4,536**	4,365	**4,685**	4,278

19. Gwariant cyfalaf a buddsoddiadau ariannol

	Amgueddfa		Cyfunol	
	2007-08	2006-07	**2007-08**	2006-07
	£'000	£'000	**£'000**	£'000
Taliadau i gaffael asedau sefydlog diriaethol	**(4,037)**	(4,133)	**(4,037)**	(4,153)

20. Newidiadau Arian Parod

	Amgueddfa		Cyfunol	
	2007-08	2006-07	**2007-08**	2006-07
	£'000	£'000	**£'000**	£'000
Arian Parod net ar 1 Ebrill 2007	**852**	620	**1,048**	923
Llif Arian net i mewn	**499**	232	**648**	125
Arian Parod net ar 31 Mawrth 2008	**1,351**	852	**1,696**	1,048

21. Rhwymedigaethau cyfalaf

	2007-08	2006-07
	£'000	£'000
Ar ddyddiad llunio'r fantolen roedd ymrwymiadau cyfalaf o	687	2,405

Mae'r rhwymedigaethau mawr yn 2007-08 yn perthyn i'r gwaith trin dŵr a gosod lleithyddion (roedd y prif ymrwymiadau yn 2006-07 yn perthyn i waith ar y to a gwaith project gofal casgliadau).

22. Asedau ar Brydles

	Peiriannau a cherbydau £'000	Celfi Gosodiadau ac offer £'000	**2007-08 £'000**	2006-07 £'000
Taliadau dyledus ar asedau ar brydles:				
Prydlesau fydd yn dod i ben cyn pen blwyddyn	2	37	**39**	48
Prydlesau fydd yn dod i ben cyn pen 2 i 5 mlynedd	0	1	**1**	42
	2	38	**40**	90

23. Rhwymedigaethau Wrth Gefn

Pe bai Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru yn cau, mae rhwymedigaethau wrth gefn i ddiogelu siafft y pwll a'r ardaloedd cyfagos. Mae dadgomisiynu yn debygol o gostio rhyw £1 miliwn ac mae'r swm wedi ei warantu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Trwy ei chyfreithwyr, mae'r Amgueddfa yn cynnal trafodaethau mewn perthynas â nifer o hawliadau am anafiadau personol ar safleoedd yr Amgueddfa. Mae'n bosibl y bydd angen i'r Amgueddfa setlo os bydd canlyniadau unrhyw drafodaethau neu ymgyfreithiad yn erbyn yr Amgueddfa. Mae'r Amgueddfa o'r farn mai £10,000 yw'r tâl mwyaf posibl a allai godi yn erbyn yr hawliadau hyn.

24. Trafodion Cyrff Cysylltiedig

Mae Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad. Felly, ystyrir bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gorff cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn cafodd yr Amgueddfa gyllid oddi wrth y Cynulliad ar ffurf Cymhorthdal Refeniw, Cyfalaf a Grant Prynu Sbesimenau, y cyfeirir ato yn Nodyn 3.

Yn ystod y flwyddyn cafodd yr Amgueddfa drafodion materol amrywiol mewn perthynas â gweithgareddau gyda chorff arall sy'n cael eu noddi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, sef Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Yn 2007-08, cafodd yr Amgueddfa drafodion materol gydag Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe Cyf. (AGGA Cyf.), cwmni y mae'r Amgueddfa yn bartner cyfartal ynddo gyda Dinas a Sir Abertawe. Cafodd yr Amgueddfa ad-daliad cost o £140,390 oddi wrth AGGA Cyf. Nid oedd unrhyw fantolenni dyled a chredyd gydag AGGA Cyf. ar 31 Mawrth 2008.

Mr Paul E. Loveluck, y Llywydd, Mr J. Peter W. Morgan, Trysorydd a Mr Gareth Williams, Ymddiriedolwr yw tri 3 o saith Cyfarwyddwr Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe Cyf. y cyfeirir ato yn Nodyn 8 o'r Cyfrifon. Nid yw'r Cyfarwyddwyr yn cael tâl gan y cwmni hwn.

Talodd yr Amgueddfa £7,740 i Geldards LLP yn 2007-08. Mae'r Ymddiriedolwr Mr H. R. C. Williams yn aelod o'r LLP.

Talodd yr Amgueddfa £5,000 i Heritage in Action (HERIAN) Cyf. yn 2007-08. Mae Mr John Williams-Davies, Cyfarwyddwr Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru, yn un o Gyfarwyddwyr HERIAN. Ni chafodd unrhyw dâl oddi wrth y cwmni hwn.

Talodd yr Amgueddfa £2,500 i Dafydd Wiliam (mab Dr Eurwyn Wiliam, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol) am waith ar bentref Celtaidd Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru. Dyfarnwyd y cytundeb yn unol â gweithdrefnau caffael ac ni fu Dr Eurwyn Wiliam yn rhan o'r broses.

Cafodd yr Amgueddfa rodd o £1,600 oddi wrth Ymddiriedolaeth Colwinston yn 2007-08. Mae Mr M. Prichard, y Cyn-lywydd Diwethaf, yn un o ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Colwinston.

25. Digwyddiadau ar ôl y Fantolen

Awdurdododd y Swyddog Cyfrifo'r datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi ar 1 Awst 2008.

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd
Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP
+ 44 (0) 29 2039 7951

Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru
Blaenafon, Torfaen NP4 9XP
+ 44 (0) 1495 790 311

Amgueddfa Lechi Cymru
Gilfach Ddu, Llanberis, Gwynedd LL55 4TY
+ 44 (0) 1286 870 630

Amgueddfa Genedlaethol y Glannau
Ffordd Ystumllwynarth, Ardal Forwol, Abertawe SA1 3RD
+ 44 (0) 1792 638950

Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru
Sain Ffagan, Caerdydd CF5 6XB
+ 44 (0) 29 2057 3500

Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru
Stryd Fawr, Caerllion NP18 1AE
+ 44 (0) 1633 423 134

Amgueddfa Wlân Cymru
Dre-fach Felindre, Llandysul, Sir Gaerfyrddin SA44 5UP
+ 44 (0) 1559 370929

Y Ganolfan Gasgliadau
Nantgarw, Rhondda Cynon Taf CF15 7QT
+ 44 (0) 29 20573651